| CYNGOR GWYNEDD COUNCIL | CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | *Defnydd swyddfa yn unig:*<br>*Rhif Cynrychiolydd:* 3134/973<br>*Dyddiad derbyn:* 31/3/15 em<br>*Dyddiad cydnabod:* |
|---|---|---|

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026**
**Ffurflen Sylwadau**

**Diogelu Data** - Y modd y bydd eich sylwadau a'r wybodaeth a roddwch i ni yn cael eu defnyddio. Bydd yr holl wybodaeth a gyflwynir yn cael ei gweld yn llawn gan staff yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd sy'n ymdrin â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd). Bydd eich enw a'ch sylwadau fel y maent wedi'u nodi yn eich ffurflen sylwadau yn cael eu cyhoeddi, ynghyd ag ymateb y Cyngor. Bydd hyn yn gymorth i ddangos fod yr ymgynghoriad wedi'i wneud yn iawn. Nodwch hefyd y gall y ffurflen hon gael ei rhoi i unrhyw Ymchwiliad Cyhoeddus ar y CDLl ar y Cyd.

**Byddai'n well gennym pe baech yn cyflwyno'ch sylwadau'n uniongyrchol ar-lein. Fel arall, gellir llenwi fersiwn electronig o'r ffurflen hon ar-lein yn www.gwynedd.gov.uk/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll. Dylech lenwi ffurflenni ar wahân ar gyfer pob sylw** yr hoffech ei wneud. Cewch ffurflenni sylwadau ychwanegol gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd drwy ffonio 01286 685003 neu gellir eu llawr lwytho o wefan y Cyngor yn: www.gwynedd.gov.uk/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll neu gallwch lungopïo'r ffurflen hon. Wrth wneud sylwadau, defnyddiwch dudalennau ychwanegol os oes angen, gan nodi rhif y dudalen yn glir.

**RHAN 1: Manylion cyswllt**

| | **Eich manylion/ Manylion eich cleient** | **Manylion yr Asiant (os yw hynny'n berthnasol)** |
|---|---|---|
| **Enw** | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg | Dr Menna Machreth 3138 |
| **Cyfeiriad** | | [redacted] |
| **Cod Post** | | |
| **Rhif Ffôn** | | |
| **Cyfeiriad e-bost** | | |

## Nodiadau Canllaw

Rhowch eich sylwadau yn Rhan 2 y ffurflen hon. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os oes angen. **Dylech lenwi ffurflenni ar wahân ar gyfer pob sylw** yr hoffech ei wneud.

Mae **Cwestiwn 2dd a 2e** yn gofyn am eich barn ar gadernid y Cynllun Adnau. Rhoddir manylion am y profion cadernid a gwybodaeth ychwanegol ar sut cânt eu defnyddio ar dudalen olaf y ffurflen hon.

Os hoffech i newidiadau gael eu gwneud i'r Cynllun Adnau, gofynnwn i chi fod mor benodol â phosib. Er enghraifft, os hoffech i destun newydd gael ei ychwanegu, nodwch y testun newydd ac esboniwch ymhle yr hoffech ei weld yn y Cynllun Adnau a pham. Hefyd, os hoffech ychwanegu polisi neu baragraff newydd neu eu haddasu, nodwch yn glir beth yw'r testun newydd ac esboniwch ymhle yr ydych chi'n meddwl y dylai fynd yn y Cynllun Adnau a pham.

Os hoffech gael gwared o safle neu gynnig addasiadau i safle sydd wedi'i ddynodi yn y Cynllun Adnau neu os hoffech gynnig safle newydd, gofynnwn i chi atodi cynllun graddfa 1:1250 neu 1:2500 sy'n nodi'n glir ffiniau'r safle. Os ydych yn cynnig safle newydd (un nad yw wedi'i gynnwys yn y Cynllun Adnau) rhaid i chi gynnwys asesiad safle manwl gyda'r ffurflen sylwadau yn unol â methodoleg asesu Safle Arfaethedig y Cyngor a'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd. Cewch hyd i'r fethodoleg asesu Safle Arfaethedig a'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd ar wefan y Cyngor yn: www.gwynedd.gov.uk/cdll **neu** www.ynysmon.gov.uk/cdll.

Cewch wybodaeth bellach ar y mater hwn gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ar **01286 685003** neu ar wefan y Cyngor yn: www.gwynedd.gov.uk/cdll **neu** www.ynysmon.gov.uk/cdll yn y llyfryn 'Canllawiau Safleoedd Amgen'.

Os yw newidiadau arfaethedig i gynllun datblygu yn cael effeithiau sylweddol ar gynaliadwyedd, bydd gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth Arfarnu Cynaliadwyedd berthnasol. Rhaid i'r wybodaeth hon fod yn gyson ag ystod a lefel manylder yr Arfarniad Cynaliadwyedd a gynhelir gan y Cynghorau. Dylai hefyd gyfeirio at yr un wybodaeth waelodlin wrth adnabod effeithiau sylweddol tebygol y polisi diwygiedig neu'r safle newydd.

Dylech gynnwys eich holl sylwadau ar y Cynllun Adnau gan nodi eich achos llawn ar y ffurflen swyddogol, gan ddefnyddio dogfennau ychwanegol os oes angen. Os ydych am weld mwy nag un newid ac yn ystyried nad yw'r Cynllun Adnau yn bodloni mwy nag un prawf cadernid, **dylech lenwi ffurflenni ar wahân ar gyfer pob sylw.** Yn yr un modd, os ydych am wneud sylwadau i gefnogi'r Cynllun Adnau neu elfennau unigol o'r Cynllun Adnau byddai'n ddefnyddiol pe baech yn gwneud y sylwadau hyn ar wahân. Nodwch os ydych yn cyflwyno deunydd arall i gefnogi'ch sylwadau.

Yr unig adeg y bydd gennych gyfle i gyflwyno gwybodaeth bellach i'r Ymchwiliad yw os yw'r Arolygwr yn eich gwahodd i ymateb i faterion y mae ef neu hi wedi'u codi. Nodwch na fydd gan yr Arolygwr sylwadau yr ydych wedi'u gwneud mewn ymateb i ymgynghoriadau blaenorol. Os nad ydych yn ystyried bod y Cynllun Adnau yn gadarn ac y dylid ei newid, esboniwch yn glir pam ydych chi'n meddwl bod angen y newidiadau. Os ydych yn meddwl bod angen gwneud newidiadau er mwyn i'r Cynllun Adnau fodloni un neu fwy o'r profion cadernid, dywedwch wrthym pa un / pa rai.

***Os yw grŵp yn rhannu barn gyffredin ynghylch sut mae'n dymuno i'r Cynllun Adnau gael ei newid, bydd y Cynghorau'n derbyn deiseb wedi'i llofnodi.*** Wrth gyflwyno ffurflen sylwadau ar ran grŵp, dylai'r ffurflen sylwadau gynnwys manylion cyswllt unigolyn arweiniol yn Adran 1 a dylid nodi'r sylwadau'n glir ar y ffurflen sylwadau. Dylai'r ddeiseb sydd wedi'i llofnodi nodi'n glir faint o bobl sy'n cael eu cynrychioli a sut mae'r sylwadau wedi'u hawdurdodi. Nid yw llofnodi deiseb yn atal neb rhag cyflwyno ffurflenni unigol.

**RHAN 2: Eich Sylwadau a Newidiadau a Awgrymir.** *(Defnyddiwch un adran Rhan 2 ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud)*

| **2a. Ar ba ran o'r Cynllun Adnau yr ydych chi'n gwneud sylwadau?** | |
|---|---|
| Polisi rhif *(nodwch)* | |
| Paragraff rhif *(nodwch)* | |
| Cynigion/ Map Mewnosod *(nodwch y rhif cyfeirnod)* | |
| Map Cyfyngiadau | |
| Atodiadau *(nodwch)* | |

| **2b. A ydych yn gwrthwynebu neu gefnogi?** | | | |
|---|---|---|---|
| Gwrthwynebu | ☑ | Cefnogi | ☐ |

**2c. Rhowch fanylion eich sylwadau ar y Cynllun Adnau.**

Gweler ein dogfen 'Sylwadau ar y Cynllun Adnau o ran effaith ar y Gymraeg'.

*Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os bydd angen.*
*Nodwch faint o dudalennau ychwanegol rydych wedi'u defnyddio..........*

**2ch. Os yw eich sylw yn 2c yn fwy na 100 o eiriau, darparwch grynodeb os gwelwch yn dda (dim mwy na 100 o eiriau.**

Mae'r sylwadau sy'n cael eu cyflwyno gennym yn ein dogfen yn ymwneud â'r twf tai, y dosbarthiad twf a'r dynodiadau, ac yn ymdrin ag effaith y Cynllun Adnau ar y Gymraeg. Mae'r sylwadau yn tynnu sylw at ddiffygion yn yr asesiadau effaith ieithyddol a dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg gan gyfeirio at absenoldeb tystiolaeth ynghyd â thystiolaeth annibynadwy.

**2d Rhowch fanylion y newidiadau yr hoffech eu gweld i'r Cynllun Adnau**

Dylid adolygu cyfansymiau niferoedd y twf tai ar gyfer y ddwy sir a'r dosbarthiad twf a'r dynodiadau o'u mewn. Dylai'r adolygiad o'r Cynllun Adnau fod yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o astudiaethau o'r ffactorau allweddol canlynol:

- Arolwg cynhwysfawr o'r angen cymunedol am dai
- Niferoedd a natur stoc dai bresennol y cymunedau
- Perthynas incwm aelwydydd a'r gallu i gael mynediad i'r farchnad dai
- Niferoedd a natur y tai sydd ar werth/ar osod yn y cymunedau
- Dadansoddiad hollgynhwysfawr o ddata Cyfrifiad 2011 (gan gynnwys ffigyrau mudo lefel ward).

Dylai asesiad effaith ieithyddol newydd yn unol ag egwyddorion cymdeithaseg iaith gael ei gynnal gan ymgynghorwyr iaith allanol. Dylid seilio'r asesiad ar dystiolaeth yr astudiaethau o'r ffactorau allweddol uchod a thystiolaeth data Cyfrifiad 2011 er mwyn dangos gwir sefyllfa'r Gymraeg yn y cymunedau a dod i gasgliadau rhesymegol, dibynadwy.

Rhaid cael Cynllun Adnau a fydd yn diwallu angen cymunedol ac yn cyfrannu i gynnal ac atgyfnerthu'r Gymraeg yng Ngwynedd a Môn.

**2dd. Ydi'r Cynllun yn gadarn?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ydi | ☐ | Nac ydi | ☑ |

**2e. Os ydych chi'n meddwl nad yw'r Cynllun Adnau yn gadarn, pa brawf cadernid ydych chi'n meddwl y mae'n ei fethu?** (Ticiwch isod os gwelwch yn dda) *Rhoddir mwy o fanylion am y profion cadernid ar gefn y ffurflen hon*

| ***Gweithdrefnol*** | | | | ***Cysondeb*** | | | | | | | | ***Cydlyniad ac Effeithiolrwydd*** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***P1*** | ☐ | ***P2*** | ☑ | ***C1*** | ☑ | ***C2*** | ☑ | ***C3*** | ☐ | ***C4*** | ☐ | ***CE 1*** | ☑ | ***CE 2*** | ☑ | ***CE 3*** | ☐ | ***CE 4*** | ☐ |

| Rhan 3: Beth sy'n digwydd nesaf? |
|---|
| Ar y cam hwn o broses y CDLl ar y Cyd, dim ond sylwadau ar bapur y gallwch eu gwneud (a elwir yn 'sylwadau ysgrifenedig'). Fodd bynnag, gall yr Arolygwr alw ar y rheini sydd am newid y Cynllun i ymddangos a siarad â'r Arolygwr mewn 'sesiwn gwrandawiad' yn ystod yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Dylech gofio y bydd yr Arolygwr yn rhoi'r un pwys i'ch sylwadau ysgrifenedig ag i'r rheini a wnewch ar lafar yn y sesiwn gwrandawiad. |

| **3a. A ydych am i'ch sylwadau gael eu hystyried fel 'sylwadau ysgrifenedig' neu a hoffech siarad mewn sesiwn gwrandawiad yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus?** *(Ticiwch un o'r isod)* | |
|---|---|
| Nid wyf am siarad mewn sesiwn gwrandawiad ac rwy'n fodlon i'm sylwadau ysgrifenedig gael eu hystyried gan yr Arolygwr. | ☐ |
| Hoffwn siarad mewn sesiwn gwrandawiad. | ☑ |

| **3b. Os hoffech siarad, cadarnhewch pam rydych yn ystyried ei bod hi'n angenrheidiol i chi siarad yn y Gwrandawiad.** |
|---|
| Byddwn yn falch o gael y cyfle i gyflwyno, egluro ymhellach ac ateb cwestiynau ar y pwyntiau a wneir yn ein dogfen sylwadau gan ein bod yn tynnu sylw at ddiffygion sylfaenol yn y Cynllun Adnau o ran effaith gweithredu'r Cynllun ar y Gymraeg. |

| **3c. A fyddech yn hoffi cael gwybod am y canlynol** (Ticiwch y blychau perthnasol) | |
|---|---|
| Cyflwyno'r dogfennau a'r dystiolaeth i'r archwiliad | ☑ |
| Cyhoeddi adroddiad yr Arolygydd | ☑ |
| Mabwysiadu'r Cynllun | ☑ |
| **Os ydych wedi darparu dogfennau ychwanegol i gefnogi'ch sylwadau, rhestrwch hwy isod:** | |
| 'Sylwadau ar y Cynllun o ran effaith ar y Gymraeg' | |
| | |
| | |

| **Llofnod:** [redacted] | **Dyddiedig:** 31.03.15 |
|---|---|

**DIOLCH AM EICH SYLWADAU AR Y CYNLLUN ADNAU**

***Cofiwch gynnwys unrhyw ddogfennau perthnasol (e.e. Arfarniad Cynaliadwyedd) gyda'r ffurflen hon.***

**Dylech ddychwelyd ffurflenni sylwadau wedi'u llenwi i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd:**

**AR-LEIN** – drwy lenwi'r ffurflen electronig yn www.gwynedd.gov.uk/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll
**DRWY E-BOST** - polisicynllunio@gwynedd.gov.uk
**DRWY'R POST** - ei hanfon i: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr Cyntaf, Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd LL57 1DT

**DYLECH DDYCHWELYD Y FFURFLENNI SYLWADAU DDIM HWYRACH NA 5.00yh ar 31 Mawrth 2015**

<u>NI FYDD</u> **SYLWADAU A DDERBYNNIR WEDI'R AMSER A'R DYDDIAD YMA YN CAEL EU HYSTYRIED**

## Profion Cadernid

| Prawf | Profion Gweithdrefnol |
|---|---|
| P1 | Nid yw wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni yn cynnwys y Cynllun Cyswllt Cymunedol. |
| P2 | Nid yw'r cynllun a'i bolisïau wedi bod drwy Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol. |
| | **Profion Cysondeb** |
| C1 | Mae'n gynllun defnydd tir nad yw'n rhoi ystyriaeth i gynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r ardal neu ardaloedd cyfagos. |
| C2 | Nid yw'n rhoi ystyriaeth i bolisi cenedlaethol. |
| C3 | Nid yw'n rhoi ystyriaeth i Gynllun Gofodol Cymru. |
| C4 | Nid yw'n rhoi ystyriaeth i'r strategaeth gymunedol berthnasol. |
| | **Profion Cydlyniad ac Effeithiolrwydd** |
| CE1 | Nid yw'r cynllun yn gosod strategaeth gydlynol ble mae ei bolisïau a'i ddynodiadau yn llifo'n rhesymegol ohono a/neu pan fo materion trawsffiniol yn berthnasol, nid yw'n gydnaws â'r cynlluniau datblygu a ddarparwyd gan awdurdodau cyfagos. |
| CE2 | Nid yw'r strategaethau, y polisïau na'r dynodiadau'n realistig nac yn briodol o ystyried y dewisiadau amgen a/neu nid ydynt wedi'u seilio ar sail tystiolaeth gredadwy. |
| CE3 | Nid oes mecanwaith clir ar gyfer gweithredu a monitro. |
| CE4 | Nid yw'n rhesymol hyblyg i alluogi iddo ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid. |

Noda Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 mai pwrpas ymchwiliad i Gynllun Datblygu Lleol (y Cynllun) yw ystyried a yw'n "gadarn". Golyga hyn y dylai unrhyw un sydd am roi sylwadau ar y Cynllun Adnau neu wrthwynebu iddo geisio dweud pam nad yw'n gadarn a beth sydd ei angen er mwyn ei wneud yn gadarn. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried cadarn i olygu ei ystyr gwreiddiol o *"dangos barn dda"* a *"y gellir ymddiried ynddo"*. Er mwyn asesu'r Cynllun Adnau, rydym yn defnyddio'r 10 prawf uchod. Bydd y Cynllun Adnau yn cael ei archwilio gan Arolygwr annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru a thasg yr Arolygwr fydd ystyried a yw'r Cynllun yn gadarn.

Os ydych yn cynnig newid i'r Cynllun Adnau, fe ddylech nodi'n glir pa brawf/brofion cadernid y credwch y mae'r Cynllun Adnau yn ei fethu/eu methu. Mae'r profion mewn tri grŵp – 'Gweithdrefnol' (dau brawf); 'Cysondeb' (pedwar prawf)' a 'Cydlyniad ac Effeithiolrwydd' (pedwar prawf). Os hoffech wneud sylwadau ar y ffordd y mae'r Cynghorau wedi paratoi'r Cynllun Adnau, mae'n debygol y byddai'ch sylwadau neu'ch gwrthwynebiadau yn disgyn o dan un o'r profion gweithdrefnol. Os hoffech wneud sylwadau neu wrthwynebu i gynnwys y Cynllun Adnau, gallai fod yn gymorth i chi edrych ar y profion 'cysondeb' a 'cydlyniad ac effeithiolrwydd'.

**Ymgynghoriad cyhoeddus Cynllun Adnau Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026**

## Sylwadau ar y Cynllun Adnau o ran ei effaith ar y Gymraeg

Defnyddiwyd ymgynghorwyr allanol i baratoi'r *Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd* a'r *Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd* ond paratowyd yr *Asesiad Effaith Ieithyddol* yn fewnol gan swyddogion y Cyngor. Awgryma anghysondeb mewnol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) gyda golwg ar ei effeithiau ieithyddol tebygol, na ddefnyddiwyd yr arbenigedd angenrheidiol, na'r ymdriniaethau safonol diweddaraf yn y maes, ac na ddehonglwyd na thafoli'r dystiolaeth yn gywir.

Ym mharagraff 3.1 yr *Asesiad Effaith Ieithyddol* pwysleisir natur oddrychol yr *Asesiad Effaith Ieithyddol*. Nid yw awduron y ddau adroddiad arall (*Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd* ac *Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd*) yn pwysleisio goddrychedd yr adroddiadau hynny ac ni faentumir fod goddrychedd yn nodweddu'r broses a oedd ynglŷn â chyfansoddi'r *Asesiad Effaith Cydraddoldeb* na'r *Asesiad Effaith Iechyd*.

Gellir casglu felly fod awduron yr *Asesiad Effaith Ieithyddol* yn credu fod y broses o asesu effaith ieithyddol rywfodd yn fwy goddrychol nag asesu effeithiau eraill y CDLl. Nid eglurir y rhesymeg sy'n eu harwain i'r casgliad hwnnw. Ym mharagraff 2.21 yr *Arfarniad Cynaliadwyedd* crybwyllir bylchau yn y data mewn perthynas â rhai o elfennau'r *Arfarniad Cynaliadwyedd*, ond yn achos effaith ieithyddol mae ffigurau iaith Cyfrifiad 2011 yn darparu data cadarn. Bid a fo am hynny, ***mae*** goddrychedd yn nodweddu'r *Asesiad Effaith Ieithyddol* a'r sylwadau ar y Gymraeg yng nghorff y CDLl, yn yr ystyr fod y dogfennau hyn yn mynegi dyheadau polisi sy'n anghydnaws â tharged tai y CDLl yn wyneb y dystiolaeth hanesyddol a'r rhagolygon poblogaeth ar gyfer Gwynedd a Môn. Arwydd yw'r pwyslais ar oddrychedd o



nerfusrwydd na ellir cysoni'r dyheadau ieithyddol a tharged tai y CDLl heb anwybyddu'r dystiolaeth ystadegol a'r rhagolygon poblogaeth sy'n berthnasol wrth ystyried effeithiau ieithyddol tebygol y CDLl.

Hynny yw, ni ellir cysoni 'SO1 Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg' â tharged tai o 7,902 yn wyneb rhagolygon twf poblogaeth naturiol statig a chanlyniadau iaith Cyfrifiad 2011. Dyma'r paradocs sylfaenol yr ymhelaethir arno isod.

..................

### 1. Dyheadau ieithyddol

Ym mharagraff 1.33 o dan y pennawd, *Polisïau Rheoli Twf Datblygiad*, mae *Tabl 3* yn crynhoi'r polisïau rheoli datblygu. Y polisi cyntaf a nodir yma o dan y pennawd *Cymunedau diogel, iach, unigryw a hyfyw* yw:

> *'Diogelu a gwella'r iaith Gymraeg – trwy greu'r amgylchiadau iawn a fydd yn cyfrannu at gynnal a chreu cymunedau Cymraeg eu hiaith.'*

Ymysg amcanion strategol y CDLl, ym mharagraff 5.8 nodir:

> *'SO1 Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned.'*

Ac ymysg prif ganlyniadau'r amcanion strategol, yn yr un adran, nodir y

> *'Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg.'*

Ymhelaethir ar hyn yn Adran 7 y CDLl lle nodir o dan Bolisi Strategol PS1 y bydd

> *'y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy: 1. Ddefnyddio mecanwaith*

*priodol i sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiau negyddol addas yn cael eu darparu neu y gwneir cyfraniad iddynt; 2. Wrthod cynigion fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned; 3. Annog bod holl arwyddion gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes yn ddwyieithog; 4. Annog defnydd o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.'*

Ceir sylwadau dyheadol eraill o'r math yma ym mharagraffau 5.6; 6.24; 7.1.1-4 ac yma a thraw drwy'r CDLI. Yn yr un modd yn yr *Arfarniad Cynaliadwyedd*, Tabl 3.1 'Negeseuon allweddol yr adolygiad o'r cynlluniau a'r rhaglenni' nodir:

> *'Dylai'r CDLI ar y Cyd ddiogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r dreftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo'r cyfleoedd fydd yn codi yn sgil adnoddau ieithyddol a diwylliannol yr ardal.'*

Ac yn Nhabl 5.3 'Crynodeb o Ganfyddiadau'r AC o Bolisiau yr Hoff Strategaeth' ceir hyn:

> *'Polisi Strategol PS19 Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Cyfeiria'r polisi hwn yn uniongyrchol at yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg, ac fe ddylai gynorthwyo i gynnal a chynyddu'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun. Mae'n bwysig i'r Cynllun Adneuo gynnwys mesurau lliniaru manwl i gynorthwyo i fynd gam ymhellach i warchod yr iaith.'*

## 2. Pryder ynghylch yr iaith ar sail y dystiolaeth hanesyddol

Ym mharagraff 6.23 y CDLI nodir mai



*'yn ardal y Cynllun ceir y gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (60% yn 2011) o gymharu â chyfartaledd Cymru (14.6% yn 2011). Cofnododd Cyfrifiad 2011 65.4% yng Ngwynedd, ond rhwng 2001-2011 gostyngodd y nifer o 1.1%. Gall 57.2% o boblogaeth Ynys Môn siarad Cymraeg, ond gwelwyd gostyngiad o 0.8% rhwng 2001-2011. Roedd yna hefyd ostyngiad bach yng Ngwynedd yn y nifer o ardaloedd lle y gall dros 70% o'r boblogaeth siarad Cymraeg – o 41 i 40 o Wardiau Etholiadol yn 2011. Bu gostyngiad o 10 ward i 8 yn Ynys Môn.'*

Mae Tabl 6 y CDLI yn rhestru'r 'prif faterion i'w taclo', yn eu mysg, o dan y pennawd *Poblogaeth, demograffeg a thai* nodir hyn:

> *'Poblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy o hyd o ganlyniad i'r ffaith bod rhannau o'r ardal yn boblogaidd fel cyrchfannau ymddeol'*

ac o dan y pennawd *Nodweddion unigryw* nodir hyn:

> *'Llai o breswylwyr wedi eu cofnodi yn 2011 i fod yn siarad Cymraeg a llai o ardaloedd lle mae mwy na 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg'.*

Yn yr *Arfarniad Cynaliadwyedd*, Tabl 3.3 'Materion allweddol a chyfleoedd' nodir y 'Gostyngiad diweddar yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg' a'r datganiadau cyfatebol hyn:

> *'Yr angen i hwyluso cadw a gwella'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig fel rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol; Yr angen i gasglu tystiolaeth a gwybodaeth ynghylch effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg ble bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol.'*

Ac yn Atodiad 8 yr Arfarniad Cynaliadwyedd, 'Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol' nodir mai'r

> *'prif fygythiad i'r iaith a'r diwylliant Cymreig yn gyffredinol yw'r mewnfudiad o weithwyr i'r ardal nad ydynt yn siarad Cymraeg a all gael ardrawiad andwyol ar yr iaith'.*

Ym mharagraff 2.5 yr *Asesiad Effaith Ieithyddol* cyfeirir at *Arolwg Tai a'r Iaith Gymraeg yng Ngwynedd a Môn* (2014) sydd

> *'yn cadarnhau mai un o'r prif heriau yw annog pobl sydd yn symud i'r ardal i ddefnyddio'r Gymraeg, gyda sgiliau Cymraeg rhai sydd wedi symud o du allan i Gymru yn wannach'*

ac mai'r

> *'wardiau sydd â'r canrannau uchaf sydd wedi symud i'r eiddo o du allan i Gymru sydd â'r canrannau isaf o'r boblogaeth â sgiliau yn y Gymraeg'.*

Ymhellach, ym *Mhapur Testun 4A:Disgrifio'r twf tai – Diweddariad* nodir ym mharagraff 89 fod 'gofyn i'r Cynllun ystyried sut y gellid defnyddio'r system cynllunio defnydd tir i ystyried a oes angen lliniaru effeithiau datblygiad ar y Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith'; a nodir mewnfudo poblogaeth ddi-Gymraeg ymysg y ffactorau sy'n egluro'r gostyngiad yn nifer y cymunedau Cymraeg yn ardal y Cynllun.

Ceir felly yn y CDLl a'r dogfennau ategol fynegiant o'r sylweddoliad sylfaenol fod cyswllt rhwng mewnfudo poblogaeth ddi-Gymraeg a'r gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yn ardal y cynllun.



## 3. Nifer tai yn seiliedig ar ragolygon mewnfudo (yn hytrach na thwf organig)

Yn y ddogfen *Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd Gwynedd ac Ynys Môn* nodir ym mharagraff 2.9 fod

> *'newid yn y boblogaeth yn y cyfnod 2001/02 – 2011/12 yn cael ei yrru'n bennaf gan fewnfudo net. Negyddol fu'r newid naturiol yn bennaf, gan fod nifer y marwolaethau yn uwch na nifer y genedigaethau dros y cyfnod hanesyddol. Yn achos Môn, mudo mewnol net positif oedd yr elfen bennaf o newid, yn enwedig yn hanner cyntaf y ddegawd. Tua diwedd y ddegawd, gostyngodd mudo mewnol net ac roedd yn negyddol yn 2008/09 a 2010/11. Yng Ngwynedd mudo mewnol net oedd yr elfen o newid pennaf ar ddechrau cyfnod 2001/02 – 2011/12, gyda'r mudo rhyngwladol net yn dominyddu yn hanner olaf y ddegawd.'*

A nodir ymhellach ym mharagraff 2.16:

> *'Yn hanesyddol, dros y cyfnod o 5 a 10 mlynedd, mae'r newid naturiol wedi bod yn negyddol yng Ngwynedd a Môn (h.y. mwy o farwolaethau na genedigaethau).'*

O droi at y rhagamcanion poblogaeth dywedir ym Mharagraff 2.17 y

> *'rhagamcannir mai'r gyrrwr mwyaf ar gyfer newid poblogaeth dros y cyfnod amcanestyniad 2011-2036 yng Ngwynedd fydd mudo rhyngwladol, ar gyfartaledd +333 o bobl y flwyddyn (Tabl 1). Yn achos Ynys Môn, amcanestynnir y bydd mudo net rhyngwladol yn bositif, fel y bu yn hanesyddol (er yn gynnydd blynyddol cyfartalog bychan iawn). 2.18 Rhagamcannir fod mudo net mewnol yn bositif yng Ngwynedd a*

*Môn; ar gyfradd uwch na dros y cyfnod hanesyddol o 5 mlynedd (2006/07-2010/11) ond ar gyfradd is na'r cyfartaledd 10 mlynedd (2001/02-2010/11).'*

Gwelir felly fod y targed tai o 7902 (sy'n cynnwys lwfans llithriad o 10%) yn darparu ar gyfer mewnfudiad. A chan y byddai mewnfudiad o boblogaeth ddi-Gymraeg yn anochel yn arwain at gwymp pellach yn nifer neu ganran y siaradwyr Cymraeg, sef un o'r dangosyddion arfaethedig yn Nhabl 2.2 yr *Asesiad Cynaliadwyedd*, ni ellir cysoni amcan strategol 'SO1 Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig' â'r targed tai.

Yn yr un modd, nid oes cyfiawnhad rhesymegol o gwbl i'r sylwadau yn yr *Arfarniad Cynaliadwyedd*, Tabl 2.6 'Fframwaith AC ar gyfer Opsiynau Safleoedd' o dan y pennawd 'Gwarchod, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg (Pwnc AAS: treftadaeth ddiwylliannol)', yn dilyn y cwestiwn 'A fydd y cynllun yn.. diogelu ac yn gwella cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg?', lle nodir yr 'ystyrir y bydd pob un o'r safleoedd posibl yn cael effaith niwtral yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC.'

Ym mharagraff 62 *Papur Testun 4A: Disgrifio'r twf tai – diweddariad* maentumir y byddai senario 'newid naturiol yn senario demograffig afrealistig gan na ellir gwahardd mudo i mewn ac allan o'r ardal'. Mae hynny'n eglur ond mae'r CDLl, drwy'r targed tai o 7902, yn mynd gam ymhellach drwy annog mewnfudo a chyfrannu felly at danseilio amcan strategol 'SO1 Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg'.

Awgryma amlder y cyfeiriadau ar Wylfa Newydd yn y CDLl mai dyma brif ysgogydd y mewnfudo i ardal y cynllun (Gweler paragraffau 3.7, 5.5, 6.26). Ym Mholisi Strategol PS9: Datblygiad yn ymwneud â Wylfa Newydd, crybwyllir effeithiau posibl ar dirwedd, golygfa, ecoleg, hanes etc. a chyfeirir at yr angen am 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, sy'n cwrdd â gofynion Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd)'. Nid oes gair yma am gynnal asesiad effaith ieithyddol. Ymhellach ym



mharagraffau 7.3.1 i 7.3.17 y CDLl o dan y pennawd 'Cynigion am Brosiectau Isadeiledd Mawr', adran ar effeithiau Wylfa Newydd i bob pwrpas, nid oes trafodaeth echblyg at effeithiau posibl ar y Gymraeg (cyfeirir yn niwlog at 'ardrawiad lleol' yn 7.3.10). Nid yw hyn yn gyson â 'Pholisi Strategol PS8 Cynigion am Brosiectau Isadeiledd Mawr' sy'n nodi 'Bod asesiad cynhwysfawr o ardrawiadau amgylcheddol (tirwedd, adeiledig, hanesyddol a naturiol), cymdeithasol (gan gynnwys iechyd a mwynderau), ieithyddol a diwylliannol, cludiant ac economaidd (positif, negyddol a chronnol) o'r cynnig yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredol a'r cyfnodau dadgomisiynu ac adferiad (os yw hynny'n berthnasol) yn cael ei ddarparu, yn ogystal â mesurau cyflawni lle mae'n briodol i osgoi, lleihau, lleddfu a/neu ddigolledu'r niwed a achosir'.

## 4. Casgliadau naïf yr *Asesiad Effaith Ieithyddol*

Yn wyneb yr anghysonder rhwng amcanion a amlinellwyd uchod, ni ellir rhoi coel ar yr Asesiad Effaith Ieithyddol sy'n datgan yn mharagraff 4.10

> *'Dangosodd Asesiad Effaith Ieithyddol a gynhaliwyd er mwyn hysbysu datblygiad yr Hoff Strategaeth bod y strategaeth ofodol yn annhebygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg.'*

ac ym mharagraff 4.11

> *'Ar y cyfan, mae'r asesiad wedi dangos bod y Strategaeth yn debygol o gael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg. Mae'r asesiad wedi dangos nad yw'r strategaethau gofodol a thwf yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol yn strwythur economaidd-gymdeithasol yr ardal, a allai effeithio ar hyfywedd yr iaith'.*

Mae'r sylwadau uchod yn llwyr gamarweiniol, ac nid oes iddynt unrhyw sail mewn gwyddor cynllunio ieithyddol.

Eithafol naïf yn y paragraffau hyn ydyw'r ffydd yng ngallu 'mesurau' mor ddirym â Siarter Iaith Gymraeg mewn ysgolion cynradd, mentrau gan Hunaniaith a Menter Iaith Môn i wrthbwyso effaith ieithyddol mewnfudo dwys.

Yn ATODIAD 3 – AEIG O BOLISÏAU MANWL gofynnir y cwestiwn

> *'A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at gynnydd/gostyngiad poblogaeth a allai: a) effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg neu ii) b) arwain at ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg?'*

Ac atebir fel hyn:

> *'Ystyriwyd symudiad poblogaeth wrth baratoi'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg. Mae angen cyffredinol am fwy o dai i fodloni anghenion y boblogaeth gynyddol. Caiff rhai mathau o ddatblygiad, yn enwedig tai, ddylanwad uniongyrchol ac anuniongyrchol ar boblogaeth ardal o ran niferoedd a chyfansoddiad. Gall datblygiadau newydd, gan gynnwys tai, arwain at fewnlifiad o drigolion diGymraeg i'r ardal, a heb reolaeth fe all danseilio cymunedau llai sydd yn rhai iaith Gymraeg yn bennaf. Ar y llaw arall, efallai y caiff y lefel twf tai effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg wrth i brisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy helpu i gadw'r boblogaeth bresennol ... At ei gilydd, felly, ystyrir nad yw'r polisïau manwl fel yr amlinellir hwy yn y Cynllun sy'n dod i'r amlwg, a thrwy weithio mewn aluniad â mentrau a hyrwyddir gan Hunaniaith a Menter Iaith Môn yn debygol o achosi cynnydd/gostyngiad poblogaeth sylweddol a allai effeithio ar gydbwysedd siaradwyr Cymraeg/ Saesneg.'*



Gofynnir hefyd yn Atodiad 3 yr *Asesiad Effaith Ieithyddol* 'A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?'. Ni chynigir ateb ystyrlon i'r cwestiwn.

Byddai disgwyl i *Asesiad Effaith Ieithyddol*, wrth drin y cwestiynau hyn, roi ystyriaeth i gyfartaledd incwm ardal y cynllun (h.y. gallu pobl leol i brynu tai – fforddiadwy neu fel arall). Anwybyddir hefyd y stoc dai bresennol, na ellir yn ystyrlon ei diystyru wrth drafod effeithiau ieithyddol targed tai y CDLl.

..............................

## Sylwadau penodol ar y dogfennau sy'n ymwneud â'r Gymraeg

**Tynnir sylw at achosion o absenoldeb tystiolaeth ac at dystiolaeth annibynadwy.**

***Papur Testun 10 – Iaith Gymraeg a Diwylliant***

Dyfynnir o'r ddogfen ac oddi tano tynnir sylw at ddiffyg yn yr hyn a honnir.

> *'2.11 Ar 13 Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) "Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg" (NCT 20). Mae'r NCT 20 yn rhoi arweiniad ynghylch rôl y system gynllunio o ran cefnogi'r iaith Gymraeg pan fo Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu paratoi a phan wneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, nid yw'r NCT yn rhoi arweiniad penodol ar sut i asesu pa anheddau / ardaloedd all ymdopi orau â datblygiad yn seiliedig ar yr effaith ieithyddol.'*

**Diffyg**: Mae'r cymal uchod yn cydnabod nad oes methodoleg ar gael i arfarnu pa gymunedau a all ymdopi gyda datblygiadau tai o ran eu heffaith ar y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r ddau

gyngor sir yn mynd rhagddynt yn y Cynllun Adnau i bennu pa niferoedd o dai newydd fydd yn briodol i gymunedau unigol heb gynnal arolwg gynhwysfawr o'r angen cymunedol.

*'3.1 Mae'r rhannau sy'n dilyn yn cynnwys gwybodaeth o'r Cyfrifiad. Gan nad yw data o Gyfrifiad 2011, sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg, wedi ei ryddhau i gyd, nid yw wedi bod yn bosib rhoi darlun cyfoes o'r iaith Gymraeg ym mhob achos. Pan ddaw'r data hwn ar gael, bwriedir diweddaru'r bennod hon.'*

**Diffyg**: Mae'r uchod yn gwbl annerbyniol gan fod y Cynllun Adnau yn datgan yn glir nad oes gan y ddau gyngor sir wybodaeth ddigonol i arfarnu sefyllfa'r Gymraeg yn gyflawn, ac *'nad yw wedi bod yn bosib rhoi darlun cyfoes o'r iaith Gymraeg ym mhob achos.'* Cydnabyddir nad yw'r dystiolaeth yn ddibynadwy. Dylid bod wedi nodi ym mha achosion yn union y mae'r wybodaeth yn annigonol. Mae'r diffyg hwn yn tanseilio methodoleg y Cynllun yn gyffredinol.

*'4.4 Mae'n debygol mai newid demograffig fydd prif ddylanwad dros gyfansoddiad ieithyddol-cymunedol ardal y Cynllun yn y blynyddoedd i ddod. Bydd yr allfudiad o siaradwyr Cymraeg ynghyd â'r mewnfudiad o bobl ddi-Gymraeg yn cael ardrawiad sylweddol ar y gyfran sydd yn siarad yr iaith. Fodd bynnag, prin yw'r dulliau sy'n gallu cyfyngu ar fewnfudo ac allfudo yn enwedig ym maes cynllunio defnydd tir.'*

**Diffyg:** Nid yw brawddeg olaf y cymal yn gywir. Mae argymhellion nifer o gynghorau sir a Phwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad i'r Gweinidog Tai ac Adfywio mewn perthynas â'r Bil Cynllunio yn dangos yn glir fod y gyfundrefn gynllunio yn effeithio ar



fewnfudo ac allfudo a bod sawl dull y gellir eu defnyddio i gyfyngu ar fewnfudo ac allfudo. Ymhlith y dulliau hynny mae: gwneud angen cymunedol yn sail allweddol Cynllun Datblygu Lleol (CDLl); gwneud y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol statudol fel y gall Awdurdod Cynllunio Lleol wrthod caniatâd cynllunio i ddatblygiadau ar sail effaith niweidiol ar y Gymraeg; ailasesu caniatâd cynllunio; sicrhau'r hawl i gartref yn y gymuned am bris teg (i'w rentu neu i'w brynu); cymorth i brynwyr tro cyntaf; cynllun Tai Fforddiadwy gan gynnwys datblygu safleoedd cyfan o dai fforddiadwy i ateb gofynion lleol (gweler Nodyn Cyngor Technegol 20; 3.8) a pholisi Tai Marchnad Angen Lleol.

……………………

***Adroddiad Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg – Hoff Strategaeth* (Mai 2013)**

Dyfynnir o'r ddogfen ac oddi tano tynnir sylw at ddiffyg yn yr hyn a honnir.

*Meini prawf yr Asesiad - '5. A fyddai datblygu ar y safle yn denu newydd-ddyfodiaid i'r ardal ac yn arwain at ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg?'*

Atodiad 3. Asesiad Ardrawiad Ieithyddol o 1) Yr Opsiynau/Strategaeth a Ffefrir a 2)Drafft Adneuo

*i) A yw'r polisi/cynllun/rhaglen yn debygol o arwain at gynnydd/lleihad yn y boblogaeth a allai i) effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg/Saesneg neu ii) arwain at ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg?*

*ii) A yw'r polisi/cynllun/rhaglen yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?*

**Diffyg**: Nid oes cyfeiriad at ostyngiad yng **nghanran** y siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn ddiffyg arwyddocaol am mai canran siaradwyr iaith leiafrifol mewn cymuned yn hytrach na niferoedd absoliwt sy'n pennu'r defnydd cymunedol tebygol ohoni.

*'Atodiad 5 Rhagdybiaeth o'r lefelau ymfudo ar gyfer cyfnod 2008-2033 (ar sail 2008) – Llywodraeth Cymru (Mae'r ffigyrau isod yn cyfeirio at y lefel ymfudo blynyddol ar gyfer pob blwyddyn dan sylw h.y. 2008-2033.) Ymfudo(cyfanswm): Gwynedd – 5,900 i mewn, 5,600 allan; Môn – 2,500 i mewn, 2,300 allan.'*

**Diffyg**: Nid oes dadansoddiad o'r data uchod sy'n seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru. Dylid bod wedi tynnu sylw at arwyddocâd a goblygiadau'r ffigyrau o safbwynt sefyllfa'r Gymraeg, gyda chanran uchel o'r mewnfudwyr yn ddi-Gymraeg, a chanran uchel o'r allfudwyr yn Gymraeg.

*'Atodiad 5 Asesiad Effaith Ieithyddol 'Gall datblygiad newydd, yn enwedig tai newydd, arwain at fewnlifiad o nifer fawr o drigolion nad ydynt ar gyfartaledd yn siarad Cymraeg i ardal, ac mae'n debygol o danseilio cymunedau llai sy'n siarad Cymraeg yn bennaf. Ar y llaw arall, mae'n bosib y bydd gan lefel y twf effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg wrth i brisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy gynorthwyo i gadw'r boblogaeth bresennol.'*

*'Fel y nodwyd ym maen prawf 1 uchod, gall datblygiad newydd, yn enwedig tai newydd, arwain at fewnlifiad o gyfradd fawr o drigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg i ardal, sydd yn debygol o danseilio cymunedau llai sy'n siarad Cymraeg yn bennaf a gwneud cymhathu yn anodd. Ar y llaw arall, gall fod yn bosib i lefel y cynnydd gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg oherwydd gall prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy gynorthwyo i gadw gafael ar y boblogaeth bresennol.'*



*'Felly, yn gyffredinol, ystyrir bod yr anghenion tai fel y'u hamlinellir yn y Strategaeth a Ffafrir sydd ar fin ei chyhoeddi yn annhebygol o arwain at gynnydd neu ostyngiadau poblogaeth arwyddocaol allai effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Saesneg /Cymraeg.'*

*'Mae union effaith y twf mewn tai ar yr iaith Gymraeg yn ansicr ar hyn o bryd. Gall fod yn bosib i lefel y twf gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg oherwydd gall prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy gynorthwyo i gadw gafael ar y boblogaeth bresennol. I'r gwrthwyneb, gallant hefyd annog poblogaeth ddi-Gymraeg i symud i mewn.'*

*'3.3 Yn gyffredinol, mae'r Hoff Strategaeth yn annhebygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg.'*

**Diffyg**: Mae'r gwrthddweud a'r anghysondebau yn y dyfyniadau uchod yn dangos nad yw'r asesiad wedi gallu penderfynu a fyddai codi'r niferoedd arfaethedig o dai newydd yn y ddwy sir yn niweidiol i'r iaith ai peidio. Ar un llaw, dywedir y gallai arwain at fewnlifiad di-Gymraeg a fyddai'n niweidiol i'r Gymraeg, ac ar y llaw arall dywedir y gallai gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar y Gymraeg. Cyfaddefir yn gwbl glir nad yw casgliad yr asesiad yn ddibynadwy pan ddywedir *'Mae union effaith y twf mewn tai ar yr iaith Gymraeg yn*

*ansicr ar hyn o bryd.'* Felly, mae cymal 3.3 yn honiad di-sail y byddai'r niferoedd yn annhebygol o wanychu sefyllfa'r Gymraeg.

*'Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd (Adneuo)*

*Dylai polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo:*

- *gofyn am Asesiadau Effaith Ieithyddol fel rhan o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sydd yn debygol o gael effaith ar yr iaith Gymraeg.'*

**Diffyg**: Nid oes sail bellach dros ddatgan hyn oherwydd mae *Nodyn Cyngor Technegol 20 : Cynllunio a'r Gymraeg* (Llywodraeth Cymru, Hydref 2013) yn nodi fel a ganlyn: 'Ni ddylid cynnal asesiad o effaith ceisiadau cynllunio ar y Gymraeg gan y byddai hynny'n dyblygu prosesau dewis safleoedd y CDLl lle bo amcanion y CDLl yn nodi bod angen cynnal asesiad o'r fath.' (4.1.2.). Mae cynnwys yr wybodaeth yn y Cynllun Adnau yn gamarweiniol oherwydd mae'n rhoi'r argraff fod modd gwarchod y Gymraeg yn nes ymlaen yn y broses sef pan fydd ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau unigol yn y cymunedau yn cael eu hystyried.

..............................

***Asesiad Effaith Ieithyddol* (Chwefror 2015)**

Dyfynnir o'r ddogfen ac oddi tano tynnir sylw at ddiffyg yn yr hyn a honnir.

**Diffyg**: Fel y nodwyd eisoes, ni chomisiynwyd corff arbenigol allanol i gynnal yr Asesiadau Effaith Ieithyddol. Dylid bod wedi defnyddio egwyddorion cymdeithaseg iaith ac



astudiaethau o achosion cymharol wrth asesu effaith niferoedd y tai ar sefyllfa'r Gymraeg mewn cymunedau unigol.

**Diffyg**: Nid yw'r ddogfen yn cynnwys Pwyntiau Allweddol a Chasgliadau ar gyfer Niwbwrch, sy'n derbyn dynodiad o 40 o dai. Hefyd yn absennol mae'r cymunedau eraill sydd â dynodiadau sy'n llai na 40. Nid oes yma dystiolaeth sy'n ystyried maint y dynodiadau yng nghyd-destun nifer y tai presennol yn y cymunedau hyn.

*2.5 Casgliadau Arolwg Tai a'r Iaith Gymraeg yng Ngwynedd a Môn (Cyngor Gwynedd, Ebrill 2014):*

*'Byddai cyfyngu'n ormodol ar waith adeiladu yn cynyddu prisiau ac yn annhebygol o gryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg'.*

*'Mae dylanwad y gyfundrefn cynllunio yn gyfyngedig o'i gymharu gyda'r farchnad dai agored.'*

**Diffyg**: Nid oes tystiolaeth i ddangos bod y gosodiad cyntaf yn wir. Mae'r ail osodiad fel pe bai'n dibrisio rhan allweddol y gyfundrefn gynllunio yn nhrefniadaeth cymdeithas a'i heffeithiau ar sefyllfa'r Gymraeg. Gallai a dylai'r gyfundrefn gynllunio fod â rhan hanfodol yn y gorchwyl o gynnal y Gymraeg yn gymunedol. Fel y nodwyd eisoes, mae argymhellion nifer o gynghorau sir a Phwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad i'r Gweinidog Tai ac Adfywio mewn perthynas â'r Bil Cynllunio yn dangos yn glir fod y gyfundrefn gynllunio yn effeithio ar fewnfudo ac allfudo a bod sawl dull y gellir eu defnyddio i gyfyngu ar fewnfudo ac allfudo. Ymhlith y dulliau hynny mae: gwneud angen cymunedol yn sail allweddol Cynllun Datblygu Lleol (CDLl); gwneud y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol statudol fel y gall Awdurdod Cynllunio Lleol wrthod caniatâd cynllunio i ddatblygiadau ar

sail effaith niweidiol ar y Gymraeg; ailasesu caniatâd cynllunio; sicrhau'r hawl i gartref yn y gymuned am bris teg (i'w rentu neu i'w brynu); cymorth i brynwyr tro cyntaf; cynllun Tai Fforddiadwy gan gynnwys datblygu safleoedd cyfan o dai fforddiadwy i ateb gofynion lleol (gweler Nodyn Cyngor Technegol 20; 3.8); a pholisi Tai Marchnad Angen Lleol.

*'3.1 Cydnabyddir bod y maes asesiadau ieithyddol yn bwnc trafod ac yn arbenigedd sy'n dal i ddatblygu, yn enwedig yng nghyd-destun Cynlluniau Datblygu. Cydnabyddir hefyd fod Asesiad Effaith Ieithyddol y Cynllun yn broses ailadroddus ac y bydd angen adolygu'r asesiad pan fo agweddau o'r cynllun yn newid. Yn ogystal, dylid nodi bod y fethodoleg AEI yn broses oddrychol sy'n bwriadu sefydlu'r effeithiau tebygol a ddaw yn sgil cynnig neu bolisi datblygu.'*

**Diffyg**: Mae'r cymal uchod yn cadarnhau bod diffygion ym methodoleg yr Asesiad Effaith Ieithyddol. Cydnabyddir mai 'arbenigedd sy'n dal i ddatblygu' yw asesiadau ieithyddol, ac mai proses oddrychol ydyw sy'n dyfalu effaith ieithyddol yn ôl dehongliadau o wybodaeth sy'n gallu bod yn gyfyngedig ac annigonol. Dim ond sefydlu 'effeithiau tebygol' y gellir amcanu ato ar y gorau. Dylid felly fod yn barod i ystyried casgliadau gwahanol. O ystyried yr wybodaeth sydd ar gael yng nghyd-destun y dynodiadau ar gyfer y cymunedau, ac ychwanegu ffactorau eraill megis yr effaith ar y farchnad dai agored a thystiolaeth achosion cymharol, ein barn ni yw nad oes sail dros honni y byddai'r datblygiadau tai yn annhebygol o fod yn niweidiol i'r Gymraeg. Y casgliad y down ni iddo yw y byddai achosion o orddatblygu mewn cymunedau ac y byddai hynny'n debygol o arwain at fewnlifiad di-Gymraeg a gwanychu sefyllfa'r Gymraeg.



*'4.7 gallai lefel y twf gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg wrth i brisiau tai is ac amrywiaeth ehangach o fathau o dai, gan gynnwys mwy o dai fforddiadwy helpu i gadw'r boblogaeth bresennol.'*

**Diffyg**: Nid oes astudiaeth yn cynnwys tystiolaeth gadarn sy'n dangos bod pobl yn symud allan oherwydd prinder tai.

*'4.8 Nodir bod y lefel o breswylwyr tai newydd sydd â gallu yn y Gymraeg yn agos at y cyfartaledd.'*

**Diffyg**: Nid yw'n dilyn y bydd hyn yn niwtral ei effaith ieithyddol. I ddechrau, byddai'n golygu bod 1 o bob 3 yn mynd i fewnfudwyr. P'run bynnag, hyd yn oed pe bai pob tŷ newydd a godir yn mynd i deuluoedd lleol Cymraeg, byddai'n dal i arwain at sefyllfa o gynyddu stoc dai y sir – rhywbeth a fyddai'n sicr o hyrwyddo mewnfudo.

*4.9 'Ystyrir fod y lefel twf tai...(yn) annhebygol o gael effaith negyddol ar yr iaith.'*

**Diffyg**: Mae'r cymal uchod yn honiad di-sail, fel y nodwyd eisoes wrth ystyried cymal 3.3. ac Atodiad 5 yn y ddogfen *Adroddiad Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg – Hoff Strategaeth, Mai 2013: 'Mae union effaith y twf mewn tai ar yr iaith Gymraeg yn ansicr ar hyn o bryd.'* Mae'r gwrthddweud a'r anghysondeb amlwg yn codi o ddiffyg tystiolaeth gadarn.

*4.9 Mae dosbarthiad cymesur o ddatblygiad ar draws yr hierarchaeth a gynigir gan y Strategaeth yn golygu na fydd tai yn cael eu harwain yn ormodol i aneddiadau penodol. Felly, mae'n annhebygol iawn y bydd y twf arfaethedig mewn tai yn arwain at naill ai gorddarpariaeth na phrinder tai o fewn aneddleoedd unigol - y gallant ill*

*dau gael effeithiau andwyol ar gymunedau ac yn dilyn o hynny, ar fywiogrwydd yr iaith Gymraeg.*

*4.10 '(ni) fydd gorddarpariaeth o dai yn cael ei gyfeirio at unrhyw un anheddiad unigol.'*

**Diffyg:** Honnir yn y ddau gymal uchod na fydd y dynodiadau yn debygol o arwain at orddarpariaeth. Ni ellir gwneud yr honiad gan nad yw niferoedd y tai ar gyfer y cymunedau yn seiliedig ar arolwg o angen cymunedol. Nid yw'r ddogfen yn rhoi tystiolaeth gadarn na fydd y dynodiadau yn golygu gorddatblygu. Ymhellach, mae'r hyn sy'n cael ei argymell yng nghymuned Penrhyndeudraeth a chymuned Cricieth, sef ail-ddosbarthu dynodiadau cymuned Porthmadog, yn tanseilio'r honiad.

*'4.11 Ar y cyfan, mae'r asesiad wedi dangos bod y Strategaeth yn debygol o gael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg. Mae'r asesiad wedi dangos nad yw'r strategaethau gofodol a thwf yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol yn strwythur economaidd-gymdeithasol yr ardal, a allai effeithio ar hyfywedd yr iaith.'*

**Diffyg:** Dangoswyd gennym eisoes fod yr honiad na fydd y Strategaeth yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg yn ddi-sail. Yma, mae'r Cynllun Adnau yn mynd gam ymhellach ac yn honni bod y Strategaeth *'yn debygol o gael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg'*, a hynny heb dystiolaeth.



*'5.6 Pan nodir effeithiau andwyol tebygol ar yr iaith Gymraeg, rhoddir ystyriaeth p'un a fyddai mesurau gwella'n briodol i sicrhau fod y math briodol o ddatblygiad yn cael ei hwyluso yn y cam cais cynllunio.'*

**Diffyg:** Mae'r cymal hwn yn rhagdybio y bydd datblygiadau mewn rhai cymunedau yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg, ond ni ddywedir yn y dogfennau cefndir, yr arfarniadau nac yn y rhan sy'n disgrifio'r dynodiadau cymunedol ym mha fodd y byddai *'effeithiau andwyol tebygol ar yr iaith Gymraeg'*. Yr hyn sy'n cael ei honni'n gyson, a hynny'n ddi-sail, yw na fydd y datblygiadau tai yn niweidio sefyllfa'r Gymraeg.

*'Atodiad 3 – AEIG o Bolisiau Manwl*

*2) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?*

*Dylai dosbarthiad cymesur o ddatblygiad ar hyd a lled ardal y Cynllun, yn cynnwys y cefn gwlad, helpu i gefnogi bywiogrwydd cymunedol drwy ddarparu tai, cyfleusterau a gwasanaethau yn lleol lle bo'u hangen, a rhai sy'n hygyrch trwy amrywiaeth o ddulliau cludiant. Yn ei dro, dylai hyn hyrwyddo cadw'r boblogaeth frodorol, ac felly'r defnydd o'r iaith Gymraeg.'*

**Diffyg:** Mae'r ateb uchod yn anwybyddu'r cwestiwn trwy osgoi ymdrin â gorddatblygu yn arwain at fewnlifiad di-Gymraeg. Yn hytrach, mae'n honni y bydd y Cynllun yn cadw *'defnydd o'r iaith Gymraeg'*, a hynny er bod cymal 4.7 yn cydnabod nad oes tystiolaeth i honni hyn: *'Fel y dangosodd Astudiaeth Tai ac Iaith Ynys Môn a Gwynedd (2014), mae'n anodd rhagweld yn fanwl union amrediad yr effeithiau posib ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg a all gael eu hachos gan dyfiant tai.'*

## Dosbarthiad Twf a dynodiadau

**Diffyg**: Nid oes tystiolaeth yn cael ei chyflwyno sy'n dangos bod cyfansymiau niferoedd y tai ar gyfer Gwynedd ac ar gyfer Môn yn ddibynadwy o ran ymateb i'r angen cymunedol am dai newydd. Ni chynhaliodd y ddau gyngor sir arolwg cynhwysfawr o'r angen cymunedol am dai yn y cymunedau unigol. Nid darpariaeth ar gyfer angen lleol yw'r 7,902 (sy'n cynnwys 10% lwfans llithriad) o dai newydd. Mae'r dystiolaeth yn dangos na ragwelir twf organig yng Ngwynedd a Môn, ac y bydd y nifer hwn o dai newydd yn golygu darparu ar gyfer mewnlifiad. Mae'r rhagamcanion mewn patrymau mudo (2008-2033) a gyhoeddwyd yn *Adroddiad Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg – Hoff Strategaeth, Mai 2013* yn dangos hynny'n eglur: Gwynedd: mewnfudo 5,900; allfudo: 5,600. Môn: mewnfudo 2,500; allfudo 2,300. Fel y dywedir yn gwbl glir yn *Papur Testun 10 – Iaith Gymraeg a Diwylliant* (paragraff 4.4): '*Bydd yr allfudiad o siaradwyr Cymraeg ynghyd â'r mewnfudiad o bob ddi-Gymraeg yn cael ardrawiad ar y gyfran sydd yn siarad yr iaith.*'

**Diffyg**: Nid oes tystiolaeth yn cael ei chyflwyno sy'n dangos bod ystyriaeth wedi ei rhoi i berthynas y dynodiadau ac incwm aelwydydd. Mae cysylltiad amlwg rhwng y galw cymunedol am dai a gallu trigolion y cymunedau i fforddio'r ddarpariaeth, a dylai fforddiadwyedd fod wedi bod yn ffactor wrth ystyried y niferoedd sirol a'r dynodiadau cymunedol. Nid oes tystiolaeth yn cael ei chyflwyno sy'n dangos bod canolrif incwm yn sirol ac yn ôl ardal (Arfon, Dwyfor a Meirionnydd yn achos Gwynedd) wedi eu hystyried cyn pennu'r twf tai ar gyfer y ddwy sir na'r dosbarthiad twf. Yn ôl ystadegau CACI Paycheck Dataset a'r Gofrestrfa Tir ar gyfer 2013 a ddyfynnir gan Gyngor Gwynedd yn adroddiad *Tai ac Incwm Gwynedd (2015)*, canolrif pris eiddo yng Ngwynedd oedd £135,750, ac ym Môn,



£144,000. Canolrif incwm aelwyd yng Ngwynedd oedd £22,111, ac ym Môn, £23,937. Mae angen incwm o £28,571 ar aelwyd i allu fforddio prynu tŷ ar bris lefel mynediad yng Ngwynedd, ac incwm o £30,000 ym Môn. Golyga hynny fod 32,636 (61.2%) o aelwydydd Gwynedd, ac 18,768 (60.3%) o aelwydydd Môn, wedi eu prisio allan o'r farchnad.

**Diffyg**: Nid oes tystiolaeth yn cael ei chyflwyno sy'n dangos bod ystyriaeth wedi ei rhoi i niferoedd y dynodiadau yng nghyd-destun niferoedd y tai presennol yn y cymunedau unigol. Ni nodir niferoedd y stoc tai presennol mewn cymunedau unigol, ac felly nid oes modd cymharu nifer y dynodiad gyda nifer y stoc dai bresennol i gael gweld i ba raddau y mae'r datblygiad yn chwyddo'r stoc dai bresennol. Er enghraifft, byddai codi 15 o dai mewn pentref sydd â stoc tai o 60 yn gynnydd o 25%, a byddai'n sicr o gael effaith sylweddol mewn sawl ffordd ar natur cymdogaeth y pentref gan gynnwys y Gymraeg fel rhan annatod o'r gwead cymdeithasol. Dylai hyn fod wedi bod yn ffactor allweddol wrth ystyried faint o dai newydd sydd eu hangen mewn cymunedau unigol.

**Diffyg**: Nid oes tystiolaeth yn cael ei chyflwyno sy'n dangos bod ystyriaeth wedi ei rhoi i niferoedd y tai marchnad agored sydd ar werth ar hyn o bryd yn y cymunedau unigol. Dylai hyn fod wedi bod yn ffactor allweddol wrth ystyried faint o dai newydd sydd eu hangen mewn cymunedau unigol.

**Diffyg**: Nid oes tystiolaeth yn cael ei chyflwyno yn seiliedig ar ffigyrau mudo lefel ward 2001-2011, ac eglurir nad oeddynt ar gael ar y pryd. O'r herwydd, defnyddir ffigyrau mudo lefel ward 1991-2001 a gyhoeddwyd yng Nghyfrifiad 2001, bedair blynedd ar ddeg yn ôl. Mae hyn yn gwneud y *Casgliadau* ar gyfer y cymunedau unigol yn annibynadwy.

**Diffyg:** Cydnabyddir nad oes methodoleg wedi ei ddatblygu ar gyfer y broses o ddyrannu niferoedd tai. Mae *Papur Testun 10 – Iaith Gymraeg a Diwylliant,* wrth gyfeirio at *Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg*, yn nodi fel a ganlyn: *'nid yw'r NCT yn rhoi arweiniad penodol ar sut i asesu pa anheddau / ardaloedd all ymdopi orau a datblygiad yn seiliedig ar yr effaith ieithyddol.'(2.11).*

**Diffyg:** Gan nad yw *Nodyn Cyngor Technegol 20* (Llywodraeth Cymru, Hydref 2013) yn cynnig methodoleg ar gyfer pennu pa gymunedau a all ymdopi â datblygiadau tai o ran eu heffaith ar y Gymraeg, dylai'r Cynllun Adnau fod wedi ei seilio ar yr angen cymunedol. Mae'r diffyg hyn yn un sylfaenol, ac mae'n cadarnhau mai dyfalu'n unig yw casgliadau'r Cynllun Adnau mewn perthynas â gallu cymunedau unigol i ymdopi. Nid yw'r Cynllun Adnau yn gallu rhoi unrhyw sicrwydd na fydd gorddarpariaeth, nac unrhyw sicrwydd na fydd y gorddatblygu hwnnw yn arwain at mewnlifiad a fyddai'n andwyol i'r Gymraeg.

**Diffyg:** Un o ddiffygion sylfaenol yr asesiad yw ei fod yn ystyried effaith datblygiadau ar ardaloedd unigol gan anwybyddu'r effaith gyffredinol ar ardal ehangach. Mae datblygiad tai yn gallu cael effaith bellgyrhaeddol mewn dwy ffordd: 1. Os yw datblygiad yn denu pobl o ardaloedd cyfagos, ei effaith anuniongyrchol fydd creu gwagle yn y lleoedd hynny a all arwain at fwy o fewnfudo. 2. Bydd cynnydd yn nifer y di-Gymraeg mewn cymuned o ganlyniad i ddatblygiad yn effeithio nid yn unig ar y gymuned dan sylw ond hefyd ar gymunedau cyffiniol.

**Diffyg**: Mae'r ddogfen yn cyfeirio'n ormodol at y trothwy 70%, ac agwedd sy'n awgrymu nad oes unrhyw le i boeni am y Gymraeg os oes dros 70% o'r bobl yn ei siarad. Mae dirywiad o 80% i 75% yr un mor ddifrifol â dirywiad cyfatebol mewn ardaloedd o ganrannau is.



**Diffyg**: Rhoddir gormod o bwyslais ar ail-gartrefi yn y cyd-destun dan sylw. Mae dogfennau'r ddau gyngor sir yn ystyried mewnlifiad di-Gymraeg yn fwy o fygythiad nac ail-gartrefi. At hynny y cyfeirir yn gyson yn y dogfennau, er enghraifft:

> *'Papur Testun 10 – Iaith Gymraeg a Diwylliant:*
>
> *3.11 Mae oddeutu 80% o drigolion Gwynedd a aned yng Nghymru yn medru siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg, ac nid oes gan 5% o'r trigolion a aned yng Nghymru unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o gwbl. Mae llai o drigolion a aned y tu allan i Gymru yn medru siarad Cymraeg ac mae hyn yn amrywio mwy gydag oedran. Nid oes gan 16.5% o'r bobl rhwng 3 a 15 mlwydd oed unrhyw sgiliau yn yr iaith Gymraeg, ac mae hyn yn cynyddu i 79% o'r trigolion sydd dros 65 mlwydd oed. Awgryma hyn fod mewnfudwyr di-Gymraeg yn gallu cael effaith andwyol ar yr iaith.*
>
> *Papur Testun 4A – Disgrifio'r Twf Tai a Gofodol – diweddariad (2014)*
>
> *Iaith a diwylliant Cymraeg: Mae cymal 89 yn yr un ddogfen yn nodi 'mewnfudo poblogaethau di-Gymraeg' fel un o'r ffactorau sy'n gyfrifol am y 'golled yn nifer y cymunedau a fu bron yn gyfan gwbl Gymraeg eu hiaith cyn hynny yng Nghymru ac ardal y cynllun'. Mae cymal 92 yn yr un ddogfen yn nodi bod Astudiaeth Tai ac Iaith Gymraeg (2014) yn datgan bod 'mewnfudo yn gwanhau sefyllfa'r iaith Gymraeg'.*
>
> *Darpariaeth Tai'*
>
> *4.11 Gwyddys bod datblygiadau tai ar raddfa fawr nad ydynt yn cyd-fynd o gwbl a maint ac anghenion y gymuned yn cael effaith andwyol ar gymeriad ieithyddol a diwylliannol ardaloedd. Mae mewnlifiad cyfradd fawr o drigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg i ardal yn debygol o danseilio'r cymunedau llai hynny sy'n*

*siarad Cymraeg ac mae hyn yn gwneud cymhathu yn anodd.'*

**Diffyg**: Nid oes angen cyfeiriadau parhaus at y ffaith fod yr ysgolion cynradd yn darparu addysg Gymraeg (3.3, 4.10 a Phwyntiau Allweddol y cymunedau unigol yn y Dosbarthiad Twf). Wrth ystyried perthnasedd y cyfeiriadau, a'u presenoldeb ym Mhwyntiau Allweddol y cymunedau unigol yn benodol, yr awgrym yw y byddai modd cymhathu newydd-ddyfodiaid yn rhwydd pe bai mewnlifiad di-Gymraeg. Mae hyn yn awgrymu bod gorddatblygu yn bosib ac efallai'n debygol.

**Diffyg**: Diffyg sylfaenol amlwg yw nad oes astudiaethau mewn cymdeithaseg iaith wedi eu cynnal o'r cymunedau. Er bod cyfeiriad yn nogfennau'r ddau gyngor sir at y Gymraeg fel rhan annatod o wead cymdeithasol y cymunedau, nid oes tystiolaeth sy'n dangos bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i swyddogaeth cymdogaeth yn y broses o gynnal iaith. Mae cymdeithaseg iaith yn dangos inni sut y mae cymdogaeth yn allweddol i gynnal iaith. Wrth ymdrin â'r cymunedau, nid yw'r asesiadau effaith ieithyddol yn rhoi ystyriaeth i gymdogaethau unigol o fewn y cymunedau mwy, ac o'r herwydd nid yw'n gallu mesur a phwyso effaith datblygiadau tai ar y Gymraeg mewn cymdogaethau unigol o fewn y cymunedau hynny. Mae union leoliad datblygiadau tai mewn cymunedau yn allweddol.

**Diffyg**: Mae'r daflen *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn : Rhowch eich barn ar y Cynllun* yn nodi fel a ganlyn am y categori '*Banc Tir Presennol*': *'Y ffigwr yma wedi asesu'r holl unedau efo caniatâd cynllunio a thynnu allan rhai sydd yn annhebygol o gael eu hadeiladu.'* Nid yw tystiolaeth o'r fath yn ddibynadwy. Mae'r elfen o ansicrwydd sydd ynghlwm wrth ddefnyddio'r gair 'annhebygol' yn y dyfyniad yn bwrw amheuaeth ar gywirdeb niferoedd y dynodiadau ar gyfer y cymunedau.



**Diffyg**: Nid yw'r daflen *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn : Rhowch eich barn ar y Cynllun* yn cyfeirio o gwbl at gategori penodol, sef tai mewn ceisiadau cynllunio sydd wedi eu cyflwyno ond nad ydynt hyd yma wedi dod gerbron Pwyllgorau Cynllunio y ddau gyngor sir. Gan fod y tri chategori arall - *'Efo caniatâd cynllunio (Ebrill 2014)'; 'Wedi'u hadeiladu'n barod ers 2011'; 'Cartrefi ychwanegol'* - wedi eu nodi, dylai nifer a chanran tai y ceisiadau cynllunio y cyfeirir atynt fod wedi cael eu nodi dan bennawd penodol.

**Diffyg**: Nid yw Niwbwrch ym Môn wedi ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Ieithyddol er bod dynodiad o 40 o dai ar gyfer y gymuned. Yn absenoldeb data, y *Pwyntiau Allweddol* a'r *Casgliadau* yn ymwneud â'r gymuned, nid oedd modd i drigolion y gymuned ei hun nac aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol gyfranogi'n ystyrlon yn yr ymgynghoriad.

**GWYNEDD**

Mae'r mewnfudo di-Gymraeg wedi ac yn effeithio'n andwyol ar y Gymraeg ym mhob cymuned yng Ngwynedd. Mae niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 yn cadarnhau hynny. Hyd yn oed yn y cymunedau sy'n dangos, am ba resymau bynnag, gynnydd bychan yn nifer y siaradwyr Cymraeg, mae'r mewnlifiad di-Gymraeg yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol. Ceir cymunedau sy'n dangos cynnydd bychan yn nifer y siaradwyr Cymraeg ond lleihad fel canran o'r boblogaeth, ac mae'r ganran yn gwbl allweddol yng nghyd-destun defnydd o'r Gymraeg. Mae astudiaethau sy'n dangos bod cynnydd bychan yn y di-Gymraeg yn lluosi'n gyflym y defnydd o Saesneg. O ystyried y gostyngiad rhwng 2001 a 2011, a'r ffaith fod pedair blynedd ers y Cyfrifiad, dylid bod wedi dwyn i ystyriaeth dystiolaeth dangosyddion graddfa a thueddiad y mewnfudo di-Gymraeg presennol. Hefyd, fel y nodwyd eisoes, nid oedd ffigyrau mudo lefel ward ar

gyfer 2011 ar gael pan luniwyd y Cynllun Adnau, a defnyddiwyd ffigyrau mudo lefel ward a gyhoeddwyd yng Nghyfrifiad 2001, bedair blynedd ar ddeg yn ôl.

.........................

**Sylwadau ar y dynodiadau ar gyfer cymunedau unigol (detholiad yn unig). Amlygir y diffygion sylfaenol cyffredinol wrth ystyried y cymunedau unigol.**

**PORTHMADOG - 128**

Sylw: Mae 72.1% yn 2.1% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigur lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Mae perygl wrth gymryd y ffigur 70% yn rhy llythrennol, gan ei fod yn dibynnu ar sawl ffactor wahanol, ac un feirniadaeth gyffredinol o fewn yr asesiad yw'r argraff sy'n cael ei chreu nad oes unrhyw broblem os yw'r gyfran yn uwch na 70%. Dylid edrych ar 70% fel isafswm, ac mae dirywiad o 80% i 75% yr un mor ddifrifol â dirywiad ymysg canrannau is.

**PENRHYNDEUDRAETH - 191**

> *'Nodir fod canran mewnfudwyr yn ward Penrhyndeudraeth wedi cynyddu o 169 i 242 (+43.2%) rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau 2011 ddim ar gael eto). Fodd bynnag, nid yw'r mewnfudiad i weld fel ei fod yn broblem arwyddocaol wrth ystyried fod nifer siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu dros yr un cyfnod.'*

Sylw: Nid oes tystiolaeth i brofi'r honiad nad yw'r mewnfudiad di-Gymraeg yn niweidiol. Ffigyrau Cyfrifiad 2001 a ddefnyddir yn achos y gymuned ac nid ffigyrau Cyfrifiad 2011, a nodir yn glir nad yw ffigyrau mudo lefel ward 2011 ddim ar gael ar hyn o bryd. Nid oes cyfrif am bedair blynedd ar ddeg o fewnfudo di-Gymraeg er 2001.



> *'Pwyntiau Allweddol*
>
> *Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 74.8%, sydd 4.8% yn uwch na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.*
>
> *Casgliadau*
>
> *Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach ym Mhenrhyndeudraeth, gyda chyfradd uchel o siaradwyr yn byw yn y ganolfan - 76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw.'*

Sylw: Mae camgymeriad difrifol yma. Yn y Pwyntiau Allweddol, nodir mai 74.8% o'r boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg, ond yn y Casgliadau, nodir mai 76.5% yw'r ganran. Gan mai'r Pwyntiau Allweddol yw'r ffactorau perthnasol yn nhystiolaeth yr asesiad, mae'r camgymeriad yn annilysu'r Casgliadau.

> *'Pwyntiau Allweddol*
>
> *Cynnydd o 2.2% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.'*

Sylw: Nid oes modd gosod y cynnydd bychan hwn yn nifer y rhai sy'n medru'r Gymraeg mewn cyd-destun ystyrlon o safbwynt mesur cynaliadwyedd yr iaith oherwydd fel y nodir yn y dyfyniad blaenorol ni chyflwynir tystiolaeth sy'n nodi manylion y mewnfudo di-Gymraeg rhwng 2001 a 2011.

> *'Casgliadau*
>
> *Er bod nifer siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad yng nghyfran siaradwyr dros yr un cyfnod.'*

Sylw: Mae'r ffaith uchod yn cadarnhau nad yw'r Gymraeg yn ddiogel yn y gymuned. Dylid bod wedi cyfeirio yma at absenoldeb ffigyrau 2001-2011 ar gyfer y mewnlifiad di-Gymraeg. Yr hyn y mae'r Casgliadau yn ei wneud yw datgan yn gwbl ddi-sail na fydd datblygiad yn cael dylanwad negyddol ar yr iaith.

> *'...teimlir y gellid tyrys cyfran uwch na'r disgwyl o dai i'r anheddle gyda sicrwydd uchel na fyddai datblygiad o raddfa berthnasol ar ben ei hun gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn amodol ar ddarpariaeth digonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol, cymysgedd briodol o fathau o dai, a bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam.'*

Sylw: Mae'n ddiffyg difrifol nad yw'r Cynllun Adnau yn seiliedig ar arolwg o'r angen cymunedol, ac mae ail-ddosbarthu tai o ddynodiad cymuned Porthmadog i gymuned Penrhyndeudraeth yn ddiffyg difrifol pellach.

Mae tystiolaeth gymunedol gyfoes gan Gyngor Tref Penrhyndeudraeth o ganlyniad i arolwg ar ffurf holiadur a ymatebwyd iddo yn Chwefror 2015. Mewn ymateb i un cwestiwn penodol *A fydd angen tŷ arnoch chi neu aelod o'ch teulu yn ardal Cyngor Tref Penrhyndeudraeth neu'r cyffiniau o fewn y pum mlynedd nesaf?* y cyfanswm a gafwyd oedd 59 o dai.

**CRICIETH - 144**

> *'Ar y cyfan, yn amodol ar weithrediad llwyddiannus mesurau lliniaru priodol, ni ddylai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn ei hun, gael dylanwad negyddol ar yr iaith, a byddai'n cyfrannu at gadw'r boblogaeth Gymraeg ei iaith yn yr ardal.'*



Sylw: Mae cyfeirio at yr angen am ddefnyddio 'mesurau lliniaru' yn rhagdybio bod y dynodiad ar gyfer y gymuned hon yn golygu gorddatblygu.

> *'Er fod cysylltiadau trafnidiaeth da i Bwllheli, oherwydd y pellter sydd rhwng dwy ganolfan, ni fyddai'n briodol ail-ddosbarthu twf Pwllheli i'r ganolfan hon. Byddai'n fwy dichonadwy i ail-ddosbarthu ychydig o dwf Porthmadog os bydd angen gwneud hyn.'*

Sylw: Fel y nodwyd wrth ystyried cymuned Penrhyndeudraeth, mae'n ddiffyg difrifol nad yw'r Cynllun Adnau yn seiliedig ar arolwg o'r angen cymunedol, ac mae ail-ddosbarthu tai o un gymuned i gymuned arall yn ddiffyg difrifol pellach.

**CAERNARFON - 415**

> *'Nid yw'n debyg fod lefel mewnfudiad o bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i'r dref yn rhoi pwysau ar yr iaith. Am y rhesymau hyn, ystyrir na fyddai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol.'*

Sylw: Mae'r frawddeg gyntaf yn cyfeirio at lefel bresennol y mewnlifiad. Beth am y rhagolygon ar gyfer y ddegawd nesaf? Hefyd, ni chyfeirir at unrhyw dystiolaeth sy'n dangos yr effeithiau posib a thebygol ar sefyllfa'r iaith yn y pentrefi cyfagos os bydd mwy o'u trigolion yn symud i'r dref.

**BETHESDA - 99**

*'Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 99 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol'*

Sylw: Nid oes dynodiadau ar gyfer y gymuned hon ond mae peth amheuaeth ynglŷn ag union nifer y tai sy'n rhan o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2001-2016. Yn ddiweddar, mewn un caniatâd cynllunio newidiwyd nifer y tai o 24 i 18; mae un caniatâd cynllunio (nifer: 37) yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â llifogydd; ac mae un cais cynllunio amlinellol (nifer: 69) wedi ei gyflwyno ond heb ddod gerbron y Pwyllgor Cynllunio hyd yma.

*'...mae'n hynod o bwysig ystyried y potensial i'r lefel twf ddenu mewnfudwyr di-Gymraeg, yn enwedig, felly, oherwydd agosrwydd Bethesda i Fangor.'*

Sylw: Mae hyn yn cadarnhau'r tebygolrwydd mai gorddarpariaeth fydd y datblygiad, ac mae'n cadarnhau hefyd fod gorddatblygu yn golygu denu mewnlifiad di-Gymraeg.

*' (nid) yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal. '*

*'...ar y cyfan, ni chredir fod graddfa'r twf arfaethedig yn debygol o achosi tyfiant sylweddol yn y boblogaeth a all effeithio'n andwyol ar yr iaith Gymraeg.'*

Sylw: Mae'r ddau osodiad uchod yn cael eu tanseilio gan y gosodiad blaenorol. Nid oes modd deall gwir sefyllfa'r Gymraeg yn gymunedol heb ddadansoddi'r ffigyrau mudo ar lefel ward ar gyfer 2011.



**RACHUB - 40**

*'Cynnydd o 4.9% yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn ward Gerlan rhwng 2001 a 2011 ond gostyngiad o 0.8% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg fel rhan o'r boblogaeth sy'n awgrymu er fod nifer y siaradwyr wedi cynyddu, mae'r nifer nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi cynyddu fwy fwy.'*

Sylw: Mae'r gosodiad hwn yn cadarnhau cynnydd yn nifer y di-Gymraeg ac mae hyn yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg.

*'...ystyrir na fyddai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol.'*

Sylw: Ni ellir dod i'r casgliad hwn ac ystyried yr hyn a ddywedir ynghylch y cynnydd yn nifer y di-Gymraeg. Mae cyfeirio at weithredu '*mesurau lliniaru*' yn awgrymu bod nifer y tai yn rhy fawr. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae clystyrau bychain o dai wedi eu codi yn y gymuned hon i ddiwallu angen lleol. Dyma'r ffordd ymlaen, ac nid dynodi 40 o dai newydd heb gynnal arolwg cynhwysfawr o'r angen cymunedol.

**PENYGROES - 89**

*'Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth iau sy'n siarad Cymraeg ar gynnydd sy'n awgrymu fod teuluoedd ifanc yn tyfu. Mae'n bwysig fod rhain yn aros yn yr ardal a bod unrhyw dai newydd sy'n cael eu hadeiladu yn adlewyrchu'r angen lleol.'*

Sylw: Nodir yn benodol mai ar gyfer y trigolion lleol y dylid codi tai newydd yn y gymuned hon. Fodd bynnag, ni chyfeirir at weithredu polisi Tai Marchnad Angen Lleol nac at godi safle(oedd) cyfan o dai fforddiadwy yn y gymuned yng nghyd-destun y dynodiad o 89 o dai.

**LLANBERIS – 70**

> *'Gostyngiad o 13.5% yn nifer siaradwyr Cymraeg a gostyngiad o 6.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg yn y ward rhwng 2001 a 2011.'*

> *'ni chredir fod graddfa'r twf arfaethedig yn debygol o achosi tyfiant sylweddol yn y boblogaeth a all effeithio'n andwyol ar yr iaith Gymraeg.'*

Sylw: Nid oes unrhyw sail dros honni nad yw mewnfudo'n broblem sylweddol yn yr ardal oherwydd mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng yn sylweddol.

> *'Yn nodweddiadol gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y boblogaeth iau. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grŵp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal.'*

Sylw: Defnyddir yr wybodaeth hon yn y 'Casgliadau' i gyfiawnhau dynodiad o 70 o dai ar gyfer y gymuned. Fodd bynnag, nid chyflwynir tystiolaeth sy'n dangos y byddai codi mwy o dai yn atal y gostyngiad yn y boblogaeth iau.

**DEINIOLEN - 40**

> *'Oherwydd natur teithyddol Bangor, ble mae lefel uwch o'r boblogaeth heb sgiliau Cymraeg, mae potensial, felly, i'r datblygiad ddenu pobl sy'n gweithio yno, nad ydynt yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, teimlir fod y lefel twf disgwyliedig yn dderbyniol ar gyfer y pentref.'*

> *'...teimlir y gellid tywys y twf disgwyliedig yn ogystal ag ychydig yn fwy i'r pentref heb i hyn gael dylanwad negyddol ar yr iaith.'*

> *'(nid) yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal.'*

Sylw: Mae'r ddau osodiad cyntaf yn cydnabod y gallai'r datblygiad ddenu mewnlifiad a bod y lefel twf yn dderbyniol, felly mae'r gosodiad olaf yn ddi-sail. Mae'r Cynllun Adnau yn rhagweld gorddatblygu yn y gymuned hon.

**LLANRUG - 61**

Sylw: Mae cynnydd wedi bod yn y ganran sy'n siarad Cymraeg yn y gymuned hon, ond rhaid ystyried ardal ehangach fel y cyd-destun llawn i unrhyw asesiad o'r iaith. Hefyd, mae angen edrych ar union natur y mewnlifiad presennol i'r gymuned er mwyn ystyried y rhagolygon a gweithredu'n rhagweithiol i osgoi creu sefyllfaoedd a fyddai'n effeithio'n niweidiol ar y Gymraeg. Ni ddylid rhagdybio na fydd y gymuned hon yn wynebu problemau iaith cymunedau eraill yn y dyfodol. Nid yw'r ffaith fod datblygiadau tai yn y gorffennol wedi cadw a denu canrannau uchel o siaradwyr Cymraeg yn sail i barhau ar yr un trywydd i'r dyfodol. Ni ellir datblygu ar yr un raddfa, ac fel gyda'r holl gymunedau, dylid mesur yr angen cymunedol am dai newydd.

**BLAENAU FFESTINIOG - 298**

*'Amrywiaeth yn hyfywdra'r iaith Gymraeg o fewn Blaenau Ffestiniog. Cynnydd o 0.8% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Bowydd a Rhiw a gostyngiad o 5% yn Diffwys a Maenofferen rhwng 2001 a 2011.*

Sylw: Mae'r 5% o ostyngiad a gofnodir ar gyfer wardiau Diffwys a Maenofferen yn sylweddol, ac mae angen gosod y cwymp hwn yn ei gyd-destun priodol wrth ystyried y tueddiadau ieithyddol yn y gymuned.

*'Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod y boblogaeth rhwng 0-19 mlwydd oed wedi gostwng 11.9%, 10.2% a 7.8% yn wardiau Teigl, Maenofferen a Bowydd a Rhiw yn eu trefn rhwng 2001 a 2011. Mae'n debyg, felly bod teuluoedd ifanc yn allfudo o'r ardal oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth neu dai addas.'*

Sylw: Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau sy'n dangos fod pobl ifanc yn allfudo oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth ond nid yw'r Cynllun Adnau yn cyflwyno tystiolaeth sy'n dangos natur a graddfa yr allfudo oherwydd diffyg tai addas. Fel yn achos yr holl gymunedau eraill, dylid bod wedi cynnal arolwg cynhwysfawr o'r angen cymunedol am dai newydd.

**BANGOR - 969**

Sylw: Ni chyflwynir tystiolaeth sy'n dangos pam bod angen nifer mor fawr o dai newydd yn y gymuned hon. Cyflwynir sylwadau hynod arwynebol ar sefyllfa'r Gymraeg yn y ddinas, a deuir i'r canlyniad *'fod yr ardal yn ddeniadol iawn i aelwydydd di-Gymraeg'*.

*'Wrth ystyried y patrymau a'r ffactorau...yn enwedig y ffaith nad yw'r dref yn gadarnle'r iaith Gymraeg... ystyrir na fyddai twf disgwyliedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol annerbyniol ar yr iaith.'*



Sylw: Mae'n ymddangos fod sefyllfa gymharol wan y Gymraeg yn y ddinas yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o gyfiawnhau codi mwy o dai a allai olygu gorddatblygu a denu mewnlifiad di-Gymraeg (fel mae sefyllfa gymharol gref y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio i'r un diben mewn ardaloedd eraill)

*'...ystyrir bod lefel digonol [o dai newydd] ym Mangor yn golygu bod llai o allfudo i gymunedau mwy Cymreigaidd eu naws yn nalgylch y ganolfan.'*

Sylw: Ni roddir ystyriaeth i ffactor arall, sef y byddai lleihad pellach yng nghanran siaradwyr Cymraeg Bangor o ganlyniad i fewnlifiad di-Gymraeg yn cael effaith ar sefyllfa'r Gymraeg mewn pentrefi cyfagos. Byddai i Fangor Seisnigo fwyfwy yn rhwym o effeithio ar Gymreictod Llanfairfechan, y Felinheli a Bethesda yn ogystal â'r pentrefi llai a'r ardaloedd mwy gwledig sy'n ffinio â'r ddinas.

Mae'r materion a godir uchod yn amlygu un o ddiffygion mawr yr asesiad effaith ieithyddol sef nad yw'r dystiolaeth a'r casgliadau yn seiliedig ar astudiaethau mewn cymdeithaseg iaith.

**PWLLHELI - 323**

*'Amrywiaeth yn hyfywdra'r iaith Gymraeg o fewn Pwllheli. Cynnydd o 11.6% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Gogledd Pwllheli a gostyngiad o 4.3% yn Ne Pwllheli rhwng 2001 a 2011.'*

Sylw: Nid oes tystiolaeth sy'n dangos bod ystyriaeth wedi ei rhoi i'r gwahaniaeth mewn dwy ran wahanol o'r gymuned a amlygir yn y *Pwynt Allweddol* uchod.

*'(nid) yw mewnfudo o bobl di-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal'*

*'...ystyrir na fyddai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol.'*

Sylw: Ni chynigir unrhyw dystiolaeth sy'n dangos pam bod angen nifer mor uchel o dai newydd yn y gymuned hon. At ei gilydd, mae'n debygol y bydd y datblygiad yn arwain at fewnfudo di-Gymraeg uniongyrchol ac yn arwain at symudiad siaradwyr Cymraeg o'r pentrefi cyfagos i'r dref gan greu rhagor o gyfleoedd mewnfudo ac ail-gartrefi yng nghefn gwlad. Nid oes tystiolaeth yn cael ei chyflwyno sy'n dangos bod ystyriaeth lawn wedi ei rhoi i'r tebygolrwydd y bydd cyfran o'r tai yn denu mewnlifiad di-Gymraeg, cyfran yn cael eu defnyddio fel ail-gartrefi, cyfran yn denu siaradwyr Cymraeg o gymunedau y tu allan i'r dref, a chyfran yn diwallu angen y dref ei hun. Nid oes ymdriniaeth ag effeithiau tebygol hynny ar sefyllfa'r Gymraeg yn y dref ei hun nac yn y cymunedau y tu allan iddi.

**BOTWNNOG - 40**

*'Mae statws yr iaith yn iach iawn ym Motwnnog (fel ag y mae yn Y Ffôr a Chwilog)'*

Sylw: Mae'r gosodiad fod 'statws yr iaith yn iach iawn' yn sylw arwynebol a heb ei ddiffinio, ac mae'n rhoi'r argraff fod y Gymraeg yn ddiogel iawn yn y gymuned hon. Nid oes astudiaeth o natur a graddfa a rhagolygon y mewnlifiad di-Gymraeg a'i ragolygon. Cyfeirir at y Ffôr yn y gosodiad ond y gwir yw fod gostyngiad o 2.1% wedi bod yng nghanran siaradwyr Cymraeg cymuned y Ffôr rhwng 2001 a 2011.

*'Bodolaeth ysgol gynradd, ysgol uwchradd a meddygfa'n golygu bod yna gyfleon i siarad Cymraeg du allan i'r aelwyd.'*

Sylw: Ni roddir esboniad sut mae'r gosodiad uchod yn berthnasol i asesiad o faint o dai newydd sydd eu hangen yn y gymuned hon. A oes yma eto awgrym fod modd cymhathu'n



rhwydd unrhyw fewnlifiad di-Gymraeg? Gan nad yw'r ffigwr o 40 yn seiliedig ar arolwg o'r angen cymunedol, mae'n bosib iawn y bydd canran ohonynt yn mynd i fewnfudwyr di-Gymraeg.

*'Risg isel i rywfaint o dai gael eu defnyddio fel ail gartrefi.'*

Sylw: Hyd yn oed pe bai sail dros ddatgan hyn, byddai cynyddu'r stoc dai yn debygol o arwain at fwy o ail-gartrefi yn y rhan hon o Wynedd.

*'Codwyd 12 o dai fforddiadwy'n ddiweddar ac mae'r dystiolaeth hyd yma'n dangos nad ydy gwneud hynny wedi cael dylanwad negyddol ar yr iaith.'*

Sylw: Nid yw datgan nad yw codi 12 o dai fforddiadwy yn ddiweddar wedi bod yn andwyol i'r Gymraeg ddim yn dystiolaeth ddibynadwy i honni na fyddai 40 o dai ddim yn niweidio'r iaith. Heb gynnal arolwg cynhwysfawr o'r angen cymunedol am dai newydd, ni ellir gwybod a fydd codi 40 o dai yn golygu gorddatblygu ai peidio.

**Y FFÔR - 40**

*'...fe welwyd gostyngiad bach (2.1%) yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ers 2001.'*

Sylw: Dylid bod wedi ystyried union natur, graddfa a rhagolygon y mewnlifiad di-Gymraeg i'r gymuned hon er mwyn cael darlun llawn o'r prosesau a'r tueddiadau sydd ar waith, yn ogystal â mesur y galw cymunedol.

*'Gellir lleihau unrhyw risgiau posib drwy sicrhau fod mesurau lliniaru priodol'*

Sylw: Mae'r ffaith y byddai gofyn defnyddio 'mesurau lliniaru' yn awgrymu yr ystyrir bod y ffigwr o 40 yn rhy uchel ar gyfer y gymuned.

*'sicrhau fod y math o unedau tai'n cyfarch galw aelwydydd yr ardal'*

Sylw: Dylid bod wedi canfod nid yn unig y math o dai sydd eu hangen ond dylid hefyd fod wedi canfod faint o dai fydd eu heisiau i ddiwallu'r angen cymunedol, a hynny trwy gynnal arolwg cynhwysfawr.

**CHWILOG - 40**

*'Gostyngiad o 0.6% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.'*

Sylw: Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei chynnal yn y gymuned hon, dylid bod wedi mesur y galw cymunedol am dai newydd.

**NEFYN - 73**

*'Gostyngiad o 2.7% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.'*

Sylw: Dengys y ganran uchod fod mewnfudo di-Gymraeg i'r gymuned. Dylid bod wedi cynnal arolwg cynhwysfawr o'r angen cymunedol am dai newydd.

........................



**MÔN**

Mae bron hanner poblogaeth Môn bellach yn ddi-Gymraeg. Mae'r mewnfudo di-Gymraeg wedi ac yn effeithio'n andwyol ar y Gymraeg ym mhob cymuned. Mae niferoedd a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 yn cadarnhau hynny. Hyd yn oed yn y cymunedau sy'n dangos, am ba resymau bynnag, gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, mae'r mewnlifiad di-Gymraeg yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol. Ceir cymunedau sy'n dangos cynnydd bychan yn nifer y siaradwyr Cymraeg ond lleihad fel canran o'r boblogaeth. O ystyried y gostyngiad rhwng 2001 a 2011, a'r ffaith fod pedair blynedd ers y Cyfrifiad, rhaid dwyn i ystyriaeth raddfa bresennol a thueddiad y mewnfudo di-Gymraeg wrth benderfynu maint darpariaeth tai ar gyfer y cymunedau.

Mae'r mewnfudo di-Gymraeg wedi cael effaith eithriadol o niweidiol ar nifer o gymunedau, ac mae nifer a chanrannau isel siaradwyr Cymraeg y cymunedau hynny yn brawf diymwad o hynny. Er yr holl dystiolaeth, bydd y dynodiadau ar gyfer cymunedau megis Benllech (90), Porthaethwy (115), Biwmares (96); Rhosneigr (70); Y Fali (84) yn hyrwyddo mewnlifiad di-Gymraeg cyffredinol. Bydd rhai o'r cymunedau hyn yn teimlo effaith mewnlifiad di-Gymraeg penodol hefyd os bydd datblygu Wylfa Newydd, sef y 'boblogaeth weithiol' y cyfeirir ati. Hefyd, ni roddir sicrwydd na fydd mewnfudo di-Gymraeg i gymunedau eraill Môn. Hanfod y diffyg yw na chynhaliwyd arolwg cynhwysfawr i fesur yr angen cymunedol am dai newydd.

Mae'r dynodiadau mawr ar gyfer rhai cymunedau yn dangos mai rhaglen Ynys Ynni Niwclear a rhagdybiaeth dyfodiad Wylfa Newydd sy'n gyrru'r amcanion tai a chynllunio.

Sylwir yn arbennig ar y cymunedau canlynol: Caergybi (833); Amlwch (533); Cemaes (81); Rhosneigr (70); Y Fali (84).

Mewn perthynas â datblygiad posib Wylfa Newydd, mae *Papur Testun 4A: Disgrifiad o'r Twf Tai – diweddariad* yn nodi fel a ganlyn:

*'17. Mae adeiladu Wylfa Newydd yn debygol o gael effaith sylfaenol ar gyfansoddiad y boblogaeth, yn enwedig mewn gwahanol fannau ar Ynys Môn drwy ail hanner cyfnod y Cynllun (ar ôl 2018). Mae hyn oherwydd y gofyniad am weithlu ychwanegol i adeiladu ac i gynnal busnesau'r gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â'r cam gweithgaredd adeiladu.*

*18. Ddiwedd mis Medi 2014, cyhoeddodd Horizon Nuclear Power ddogfennau cam ymgynghori cyn cais 1 (PAC1) am ddatblygiad Wylfa Newydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r cwmni'n rhagweld y gallai'r niferoedd posibl o weithwyr adeiladu 'dros dro' sy'n ymwneud â'r gwaith o adeiladu Wylfa Newydd ar frig y gwaith adeiladu, sydd yn debygol o fod rhwng 2021 - 2024, fod oddeutu 8,500 o weithwyr, a fydd angen llety o rhyw fath neu'i gilydd un ai ar yr Ynys neu mewn mannau eraill.*

*19. Bydd cyfansoddiad y gweithwyr adeiladu (e.e. statws priodasol, sgiliau, math o gontract) yn penderfynu pa fath o lety fydd ei angen. Bydd y cyfnodau pryd fydd y gweithwyr hyn yn cyrraedd yr ardal leol hefyd yn bwysig o ran y galw am lety dros dro. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r datblygiad a gynigiwyd gan gwmni Land and Lakes ar gyfer safle ger Caergybi yn ogystal â thystiolaeth i gefnogi "Adeiladu Gorsaf Niwclear Newydd Wylfa: astudiaeth Cyfleusterau Llety i weithwyr*



*adeiladu" (2011) yn awgrymu amser arweiniol ar gyfer datblygu ystod lawn o lety, cyfnod o ddeiliadaeth lawn, ond, wedyn, stoc yn gwagio'n gyflym. Ystyria Cyngor Sir Ynys Môn bod angen cynllunio ar gyfer hyn, ac o ran unrhyw etifeddiaeth y safle neu'r llety a adeiladwyd, lle mae hynny'n ymarferol. Dengys y datblygiad arfaethedig gan Land and Lakes yng Nghaergybi bod potensial yn bodoli am i gyfran o'r stoc a ddatblygwyd gael ei adeiladu i fod yn barhaol, ac felly'n gwrthbwyso gofynion unedau tai tymor hwy (ar ôl 2026, sydd ar ôl cyfnod y CDLl ar y Cyd) i gwrdd ag angen lleol.*

*20. Felly mae'n bwysig bod y CDLl ar y Cyd yn ddigon hyblyg o ran ei bolisïau i alluogi datblygu Gorsaf Niwclear Newydd yn gyfagos at y safle Magnox presennol yn yr Wylfa yn ogystal â buddsoddiadau eraill yn ardal y Cynllun.'*

..................................

**Sylwadau ar y dynodiadau ar gyfer cymunedau unigol (detholiad yn unig). Amlygir y diffygion sylfaenol cyffredinol ynghyd â diffygion penodol wrth ystyried y cymunedau unigol.**

**CAERGYBI - 833**

*'Gostyngiad yng nghyfran siaradwyr Cymraeg wedi digwydd ym mhob ward yng Nghaergybi rhwng 2001 a 2011. Gostyngiadau'n amrywio o -0.9% yn Nhref Caergybi i -15.3% ym Mhorthyfelin.*

*Mae gan ardaloedd o fewn Caergybi ganrannau gymharol uchel o fewnfudwyr yn enwedig, felly, wardiau Tref Caergybi (13.4%) a Kingsland (13.1%) (ffigyrau 2001) sy'n awgrymu fod cyfraddau mewnfudwyr yn gymharol uchel.*

*ystyrir na fyddai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol annerbyniol ar yr iaith'*

Sylw: Mae'r ddau sylw cyntaf yn cydnabod bod mewnfudo di-Gymraeg wedi cyfrannu at ostyngiad yng nghanran siaradwyr Cymraeg Caergybi. Felly, gydag golwg ar ragolygon yr iaith i'r dyfodol, ni ellir cyfiawnhau'r gosodiad dilynol sy'n honni na fyddai codi 833 o dai newydd yn niweidio'r Gymraeg. Mae'r diffyg ymresymu yma yn amlwg.

Nid oes cyfeiriad at Wylfa A nac at Wylfa Newydd. Dylid bod wedi ystyried beth fu effaith Wylfa A ar yr iaith, a beth fydd effaith tebygol Wylfa Newydd.

Hefyd, os yw nifer y tai yn cynnwys datblygiad arfaethedig *Land and Lakes* yna mae eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio. Mae elfen gref o dwristiaeth yn rhan o'r cynnig hwnnw, yn hytrach na thai i bobl fyw'n barhaol.

**LLANGEFNI - 673**

*'...fe gynyddodd nifer siaradwyr Cymraeg tra gwelwyd gostyngiad bach yng nghyfran siaradwyr yr iaith.'*



Sylw: Mae'r ffaith fod gostyngiad bach yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y gymuned hon yn dystiolaeth fod rhyw gymaint o fewnlifiad di-Gymraeg. Hefyd, rhaid ystyried a yw'r cynnydd yn nifer sy'n siarad Cymraeg i'w briodoli i siaradwyr Cymraeg yn symud o bentrefi cyfagos i fyw i'r dref. Nid oes tystiolaeth sy'n dangos mai diwallu angen y dref ei hun y bydd 673 o dai newydd. Ni roddir ystyriaeth i'r posibilrwydd y bydd cyfran o'r tai yn mynd i fewnfudwyr di-Gymraeg, a chyfran yn mynd i siaradwyr Cymraeg o bentrefi cyfagos a fyddai'n creu gwagle a fyddai'n debygol o ddenu mewnlifiad di-Gymraeg.

**LLANFAIRPWLL - 82**

*'Gostyngiad o 3.4% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.'*

Sylw: Yn ôl Cyfrifiad 2011, bu cwymp o 3.4% yn nghyfran siaradwyr Cymraeg y gymuned hon, gyda chanran y di-Gymraeg yn 28.2%. Nid oes tystiolaeth sy'n dangos union natur, graddfa bresennol a rhagolygon y mewnfudo di-Gymraeg i'r gymuned. Mae nifer fawr o stadau tai wedi eu hadeiladu yn y gymuned yn ystod y degawdau diwethaf, ac yn ogystal â mewnlifiad di-Gymraeg mae nifer o siaradwyr Cymraeg wedi symud i'r gymuned o gymunedau cyfagos a chymunedau eraill ym Môn. Dylid bod wedi cynnal arolwg cynhwysfawr o'r galw cymunedol am dai newydd cyn pennu'r dynodiad o 82.

Dylid hefyd fod wedi rhoi gwybod a fydd tir gwyrdd rhwng Llanfairpwllgwyngyll a Phorthaethwy yn cael ei ddefnyddio ai peidio ar gyfer y datblygiadau tai arfaethedig.

**GAERWEN - 58**

*'Gostyngiad o 3.2% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.*

*...gwelwyd gostyngiad o 21% yn y nifer o siaradwyr Cymraeg rhwng 3-15 mlwydd oed.*

*cadw trigolion yn enwedig oedolion a theuluoedd ifanc yn yr ardal a denu poblogaeth gweithiol.'*

Sylw: Mae'r dyfyniad olaf yn cadarnhau y bydd y nifer y dynodiad yn golygu gorddatblygu, ac mai diben y gorddarparu fydd denu mewnlifiad - *'poblogaeth gweithiol'* - yn sgil datblygiad posib Wylfa Newydd. Mae'r gostyngiad o 21% rhwng 2001 a 2011 yng nghanran y plant a'r bobl ifanc sy'n medru'r Gymraeg yn dangos pa mor fregus yw sefyllfa'r iaith yn y gymuned.

**PENTRAETH - 57**

*'Cyfran...o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 60.5%*

*Gostyngiad o 1.9% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.*

*...gwelwyd ostyngiad o 31% yng nghanran siaradwyr Cymraeg yng ngrŵp oedran 3-15.'*

Sylw: Roedd ffigyrau Cyfrifiad 2011 yn dangos bod canran poblogaeth ddi-Gymraeg y gymuned bryd hynny yn 39.5%. Ni chyflwynir tystiolaeth sy'n adnabod y tueddiadau



oherwydd nid oes dadansoddiad o natur, graddfa bresennol na rhagolygon y mewnfudo di-Gymraeg i'r gymuned.

*'Bydd yn bwysig hyrwyddo cyflenwad digonol o unedau tai a'r mathau angenrheidiol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, er mwyn cadw trigolion (yn enwedig teuluoedd ifanc) yn yr ardal a denu poblogaeth gweithiol.'*

Sylw: Fel yn achos cymuned Gaerwen, mae'r dyfyniad olaf yn cadarnhau y bydd nifer y dynodiad yn golygu gorddatblygu, ac mai diben y gorddarparu fydd denu mewnlifiad - *'poblogaeth gweithiol'* - yn sgil datblygiad posib Wylfa Newydd. Mae'r gostyngiad sylweddol yng nghanran siaradwyr Cymraeg, sef 31%, yn dangos pa mor fregus yw sefyllfa'r iaith yn y gymuned.

**BODEDERN - 57**

*'Ystyrir Bodedern felly yn gadarnle'r iaith Gymraeg a dylid ystyried yn ofalus effaith datblygiadau tai ar yr ardal.'*

Sylw: Er mwyn gwarchod nodweddion ieithyddol a diwylliannol y gymuned, dylid bod wedi cynnal arolwg cynhwysfawr o'r angen cymunedol am dai newydd, a chlustnodi'r gymuned ar gyfer gweithredu polisi Tai Marchnad Leol.

**LLANNERCH-Y-MEDD - 40**

*'Cyfran gymharol uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 75.5%'*

*'Cynnydd o 3.4% yn nifer siaradwyr Cymraeg ond gostyngiad o 2.4 yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.'*

Sylw: Dylid gweithredu polisi Tai Marchnad Angen Lleol yn y gymuned.

**GWALCHMAI - 40**

*'Cyfran...yn siarad Cymraeg 67.1%'*

*'Cynnydd o 6.2% yn nifer y siaradwyr Cymraeg ond gostyngiad o 4.9% yng nghyfran siaradwyr yn y ward rhwng 2001 a 2011.'*

Sylw: Roedd Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 32.9% o boblogaeth y gymuned yn ddi-Gymraeg. Er bod cynnydd o 6.2% yn nifer y siaradwyr Cymraeg, mae'r gostyngiad o 4.9% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn dangos bod mewnfudo di-Gymraeg yn cael effaith ar sefyllfa'r iaith. Fel yn achos cymunedau eraill, ni chyflwynir tystiolaeth sy'n adnabod y tueddiadau oherwydd nid oes dadansoddiad o natur, graddfa bresennol na rhagolygon y mewnfudo di-Gymraeg i'r gymuned. Dylid bod wedi cynnal arolwg o'r angen cymunedol cyn pennu'r dynodiad o 40.

**CEMAES - 81**

*'Cyfran is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 50.5%*



*'Ar y cyfan, mae statws yr iaith Gymraeg yn fregus yn y ganolfan hon, gyda chyfradd siaradwyr Cymraeg 20% yn is na'r lefel ystyrir fod yr iaith yn hyfyw.*

*Gostyngiad o 6.3% yng nifer siaradwyr Cymraeg ward Llanbadrig rhwng 2001 a 2011.*

*Cyfran sylweddol is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (53.1% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Môn).*

*Cyfradd gymharol uchel o aelwydydd ble nad yw'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg.*

*(nid) yw mewnfudiad yn broblem arwyddocaol yn yr ardal.'*

Sylw: Mae'r gosodiad olaf hwn, yn dilyn y ffeithiau a nodir yn y cymalau blaenorol, yn gwbl ddi-sail. Dangosir bod allfudo sylweddol ond ni ddangosir nad yw mewnfudo yn broblem arwyddocaol. Yn achos y gymuned hon, cysylltir denu poblogaeth weithiol yn uniongyrchol gyda datblygu Wylfa Newydd, gan gydnabod y darperir ar gyfer mewnlifiad.

**AMLWCH - 533**

*'Cyfran...o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 63.1%.*

*...gwelwyd gostyngiad yng nghyfran siaradwyr Cymraeg a hefyd yn y nifer o siaradwyr rhwng 2011 a 2011.*

*Gostyngiad bychan o 1.6% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Amlwch Wledig rhwng 2001 a 2011.*

*Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned y tu allan i Gymru ac sy'n siarad Cymraeg yn un o'r uchaf yn yr Ynys sy'n awgrymu nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal gyda chyfran uchel yn dewis dysgu'r Gymraeg. Mae'r twf adeiladu a welwyd yn y ganolfan ers 2002 yn gymharol isel. Am y rhesymau hyn, ystyrir na fyddai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol.'*

Sylw: Ni chyflwynir tystiolaeth i ddangos bod angen codi 533 o dai newydd yn y gymuned hon. Nid yw'r rhesymau a gyflwynir uchod yn cyfiawnhau ddarpariaeth mor helaeth, ac mae'n amlwg nad ar gyfer diwallu angen cymunedol y bwriedir codi cynifer o dai newydd. Nid oes cyfeiriad at ddyfodiad posib Wylfa Newydd yn y *Pwyntiau Allweddol* na'r *Casgliadau*.

.................................

Dylid adolygu cyfansymiau niferoedd y twf tai ar gyfer y ddwy sir a'r dosbarthiad twf a'r dynodiadau o'u mewn. Dylai'r adolygiad o'r Cynllun Adnau fod yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o astudiaethau o'r ffactorau allweddol canlynol:

- Arolwg cynhwysfawr o'r angen cymunedol am dai
- Niferoedd a natur stoc dai bresennol y cymunedau
- Perthynas incwm aelwydydd a'r gallu i gael mynediad i'r farchnad dai



- Niferoedd a natur y tai sydd ar werth/ar osod yn y cymunedau
- Dadansoddiad hollgynhwysfawr o ddata Cyfrifiad 2011 (gan gynnwys ffigyrau mudo lefel ward).

Dylai asesiad effaith ieithyddol newydd yn unol ag egwyddorion cymdeithaseg iaith gael ei gynnal gan ymgynghorwyr iaith allanol. Dylid seilio'r asesiad ar dystiolaeth yr astudiaethau o'r ffactorau allweddol uchod er mwyn dangos gwir sefyllfa'r Gymraeg yn y cymunedau a dod i gasgliadau rhesymegol, dibynadwy.

Rhaid cael Cynllun Adnau a fydd yn diwallu angen cymunedol ac yn cyfrannu i gynnal ac atgyfnerthu'r Gymraeg yng Ngwynedd a Môn.

***Cyflwynwyd gan:-***

**Cylch yr Iaith**

**Dyfodol i'r Iaith**

**Canolfan Hanes Uwchgwyrfai**

**Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

**Davies Nia Haf (Rh-CTGC)** 3141 / 977

| | |
|---|---|
| **From:** | Robyn Parri [redacted] |
| **Sent:** | 31 March 2015 14:46 |
| **To:** | Polisi Cynllunio |
| **Subject:** | Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon, (CDLl ar y Cyd), 2011-2026 |
| **Attachments:** | Pwyllgor Ymchwil Cymunedau Cymraeg a Chymreig Mon.docx |

Annwyl Swyddogion,
Yn anffodus ni fedrwyd a chael mynediad i'r ffurflen ar eich gwefan a bu rhaid defnyddio'r e-bost hwn.
Amgeuir yr atodiad yn yr e-bost.
Yr eiddoch.
R.J. Parry.

# Pwyllgor Ymchwil Cymunedau Cymraeg a Chymreig Môn

Sefydlwyd y Pwyllgor Ymchwil hwn yn dilyn ymweliad *Cyngrhair Cymunedau Cymraeg* i Fôn ganol haf 2012. O'r diwedd teimlwyd bod yna gorff cenedlaethol yn cymeryd tynged ein cymunedau Cymraeg a Chymreig o ddifrif.

Yr hyn a ddaeth a'r Pwyllgor i fodolaeth oedd ein pryder ynglŷn a chwe elfen o'r hyn a elwir yn Stategaeth Datblygu i Ynys Môn.

Elfen Un: Strategaeth Datblygu Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Clymblaid Cymru'n Un, y naill ochr i'r Fenai o amgylch Dinas Bangor, a elwir yn Hwb

- Polisi yw hwn a fydd yn rhwym **o faestrefoli canolbarth dwyrain Môn o'r ddwy bont Menai hyd at, ac o amylch Llangefni, ac i Ddyffryn Ogwen a'i gyrion – craidd y Gymru Gymraeg ym Môn a Gogledd Arfon**.
- Strategaeth a fydd yn arwain at 'Galwayeiddio' yr rhan Gymreiciaf hwn o Fôn Gymraeg, ac ucheldir Gogledd Arfon, o rhan dwyster a chanran siaradwyr Cymraeg, a'u troi'n faestrefi estynedig 'seisnigedig' y naill ochr i Ddinas Bangor. Sef yr union bolisi a ddigwydd yn yr ardaloedd Gwyddeleg eu hiaith y naill ochr i Ddinas Gallimh, (Galway), yng Ngweriniaeth 26 Sir Iwerddon.
- Mae'r polisi hwn eisoes yn 'stimio'r' ***galw** am dai ychwanegol tu hwnt i unrhyw wir alw lleol gwirioneddol*, **i mewn i'n cymunedau Cymraeg y naill ochr i'r Fenai**.

Elfen Dau: Ymgais y Wladwriaeth Brydeinig, er gwaethaf yr holl argoelion economaidd, amgylcheddol a diogelwch rhyngwladol negyddol, i godi ail-genhedlaeth o adweithyddion niwclear ar Ynys Môn, er mwyn i sicrhau cyflenwadau mewnol diogel o adnoddau ymbelydrol i'w diwydiant arfau, dan yr ochydd o gyflenwi trydan ddi-nwyon tŷ gwydr. Ynghyd a pharodrwydd ddi-gwestiwn trwch cynrychiolwyr a swyddogion dylanwadol dwy sir *Cynllun Datblygu ar y Cyd Gwynedd a Môn* i'w dderbyn, er gwaethaf yr holl rhybuddion rhyngwladol.

- Hyn eto'n 'stimo'r' ***galw** am dai ychwanegol tu hwnt i unrhyw wir alw lleol, gyda datblygwy'r lleol ac allanol yn manteisio ar eu cyfle.*

Elfen Tri: Polisi Datblygu Tir a Thai y Wladwraieth Brydeinig a pharadrwydd digwestiwn Llywodraeth Cymru a Chynghorau Gwynedd a Môn, (fel

cynghorau lleol eraill Cymru), i dderbyn a dosrannu'r cwotau hyn, heb unrhyw ystyriaeth, llai fyth astudiaeth o'r ***gwir** anghenion lleol* am dai.

Elfen Pedwar: Mân ddatblygu tai ar draws Môn ar sail 'marchnodol' hinedig yn hytrach nag unrhyw 'alw' gwyddonol brofiedig, er mwyn cyflenwi *anghenion* 'masnashol' *cyson a di-baid* mân ddatblygwyr lleol. Hyn eto'n gwanychu ac yn erydu sefyllfa ieithyddol-demograffrig ein cymunedau Cymraeg a Chymreig, er ddechrau'r 'Gweithiau Mawr Cyhoeddus' yn y 1960au.

Elfen Pump: Absenoldeb llwyr unrhyw **Fesur Gwyddonol o Effaith Cymdeithasegol-Ieithyddol a Demograffig Datblygiadau Economaidd a Chynllunio ar ein cymunedau Cymraeg eu hiaith**. Bu hyn yn fethiant er dyddiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg a peru hyd heddiw.

Elfen Chwech: Absenoldeb llwyr unrhyw **Bolisi Cynllunio Ieithyddol-Gymunedol ac Economaidd gadarn, gan Llywodraeth Cymru a'n Cynghorau Sir, i sefydlogi a chynyddu ein Cymunedau Cymraeg eu hiaith yma ym Môn a gweddill y Gymru Gymraeg a'i chyrion** – Sef *Rheoleiddio Ieithyddol*, fel yn Quebec a Fflandrys.

Argymhellion: Ni ddylid derbyn y *Cynllun Datblyugu ar y Cyd rhwng Gwynedd a Môn*.

- Yn Gyntaf: Dylid ei daflu allan gan nad yw ar unrhyw gyfrif yn adlewyrchu unrhyw wir anghenion lleol yng Ngwynedd na Môn, ond yn hytrach polisi 'marchnad rhudd di-lyffethair' y Wladwriaeth Brydeinig yn Llundain, a fydd yn difa ein cymunedau Cymraeg olaf yng Ngwynedd a Môn.
- Yn Ail: Dylai Cynghorau Sir Gwynedd a Môn, (a holl gynghorau eraill Cymru), a'r y cyd a Llywodraeth Cymru, wrthod yn llwyr a derbyn unrhyw 'dictat' ar bolisi datblygu tir a thai gan y Wladwriaeth Brydeinig.
- Yn Drydedd: ONI FYDD YNA WARANT CYFREITHIOL AC ARIANNOL *RHYNGWLADOL* **CANT Y CANT** BOD YNA UNRHYW DDATBLYGIADAU NIWCLEAR PELLACH YN DOD I FÔN – NI DDYLID RHOI UNRHYW FATH O GANIATAD GYNLLUN GO-GYFER DATBLYGU NA THAI NA DIM ARALL I'R PERWYL HYNNY.

- Yn Bedwaredd: Yn y cyfanser dylai ***Cynghorau Gwynedd a Môn ar y Cyd*** wneud *Asesiad Economaidd, Cymdeithasol, Ieithyddol a Demograffig* o wir anghenion lleol datblygu tir a thai Môn ac Ardal y Fenai. A hynny ar ddau dybiaeth:

  **Un: Na fydd yna atomfa newydd yn dod.**

  **Dau: Bod atomfa newydd yn dod.**

  Yna Asesu holl oblygiadau iechyd a diogelwch, gan gynnwys y gallu neu beidio i wacau'r Ynys petai yna ddamwain niwclear, ynghyd ag asesu effeithiau hir-dymor tebygol o brofiad mannau lle bu eisoes ddamweiniau niwclear.

  Yr un modd Asesu Gwir Anghenion y fath brosiect, ac nid 'anghenion mympwyol' hap-ddatblygwyr tai ac eiddo lleol nac allanol.

## I gloi, nodir ein gwirioneddol bryder ar ddau ystod:

**Un: Y bygythiad i barhad ein Cymunedau Cymraeg a Chymreig yma ym Môn.**

Oni fydd datrysuiad i'r sefyllfa a ymddengys sy'n ein gwynebu, ni fydd gennym ddewis ond tynu sylw'r cyrff rhyngwladol perthnasol at fethiant y Wladwriaeth Brydeinig, Llywodraeth Cymru a Chynghorau Gwynedd a Môn ar y Cyd, i ddiolegu a sicrhau goroesiad, ffyniant ac adferiad ein Cymunedau Cymraeg a Chymreig rhag erydiad ieithyddol, diwylliannol, ethnig a chenedligol.

**Dau: Y peryglon gwirioneddol i iechyd a diogelwch cyhoedd Môn petai damwain niwclear cyffelybu i rhai mewn mannau eraill yn digwydd, ynghyd a'r broblem o wacau'r Ynys, ac o ymbelydredd hir-dymor.**

Yr un modd ni byddai gennym ddim ddewis ond tynu sylw'r cyrff rhyngwladol perthnasol i'r bydythiad gwirioneddol hwn i'n diogelwch a'n hiechyd yn sgil yr hyn sy'n hysbys bellach o'r hyn sydd wedi digwydd mewn sawl man yn y byd i adweithyddion niwclear. ***Ac yn benodol y cyfyngiadau amlwg ar wacau Ynys Môn*** petai yna unrhyw ddigwyddiad difrifol ar y safleoedd niwclear Môn.

Yr eiddoch, ar ran y Pwyllgor, R. J. Parry.